

ECO'R WYDDFA

RHIF 279

MEHEFIN 2001

PRIS 40c

BETH AM GEFNOGAETH I'R ECO?

Cynhelir Cyfarfod Blynnyddol Eco'r Wyddfa yn y Sefydliad Coffa, Llanrug nos Fawrth, Mehefin 12 am 7.30.

Taer erfynnir am eich cefnogaeth. Dim gofyn i chi gyfrannu'n ariannol, dim angen i chi dderbyn swydd, dim angen i chi ddeud gair o'ch pen – dim ond dangos wyneb! Bydd eich presenoldeb yn cael ei werthfawrogi gan yr ychydig rai ohonom sydd yn cynnal yr Eco o flwyddyn i flwyddyn. Beth am gefnogaeth ganddoch chi, ieuencid y fro? Mae angen gwaed ffres a newydd. Mae digon o swyddi cyffrous a diddorol angen eu llenwi. Does dim angen bod yn ddiflas (*bored*) ym Mro'r Eco! Dyma gyfle i chi weld y Sefydliad Coffa ar ei newydd wedd yn ogystal!

Diwedd y Co-op?



Bydd siop gydweithredol unigryw yn cau ddechrau Awst eleni. Mewn cyfarfod hanesyddol o'r aelodau yn Llanrug ddiwedd Ebrill penderfynwyd yn unfrydol, ond yn anfoddog, dderbyn cynnig Cyfarwyddwyr y Gymdeithas 'na all y colledion a gronwyd gael eu gwrthdroi; fod yn siop yn cau, y dyledion yn cael eu talu, a dyfodol y Gymdeithas yn cael ei ystyried.' Mae derbyn y cynnig yn golygu dirwyn i ben siop a fu'n gwasanaethu pentref Llanrug a'r pentrefi amgylchynol ers dros ganrif. Mae'n golygu hefyd ddiwedd cyfnod yn hanes y siopau cydweithredol a ddatblygodd o ganlyniad i sefydlu'r mudiad yng nghanol yr ugeinfed ganrif. Eisoes gwelwyd cau siopau cydweithredol Deiniolen a Llanberis. Ond roedd y siop yn Llanrug yn unigryw oherwydd i'r aelodau wrthsefyll pob ymgais i'w llyncu gan y mudiad cenedlaethol. Parhaodd y busnes yn nwylo'r aelodau lleol, a dyna, o bosibl, pam y llwyddodd y Co-op yn Llanrug i oroesi ei chymdogion yn y pentrefi cyfagos.

parhad ar dudalen 17

Y Sefydliad Coffa ar ei Newydd Wedd



Yn dilyn blynnyddoedd o ymgyrchu am ganolfan gymdeithasol yn Llanrug, mae'r freuddwyd bellach wedi ei gwreiddu, a'r Sefydliad Coffa yng nghanol y pentref ar agor i'w ddefnyddio. Trosglwyddwyd yr adeilad yn ôl i ofal yr Ymddiriedolwyr ddechrau fis Mai, yn dilyn misoedd o waith addasu ac adnewyddu ar yr hen Sefydliad.

Y rhan gyntaf i'w ddefnyddio oedd yr ystafell snwcer fendigedig, sydd bellach wedi ei lleoli ar lawr uchaf yr adeilad.

Ddiwrnod wedi i'r adeilad ddod yn ôl i gyfrifoldeb y Pwyllgor Rheoli, roedd yr ystafell snwcer ar agor, a'r ciw(!) i'w defnyddio yn dangos fod ieuencid y pentref wedi gweld ei cholli dros y misoedd a aeth heibio. Mae Pwyllgor Rheoli'r Sefydliad yn cyfarfod yno'n rheolaidd i wneud penderfyniadau ynglŷn â dodrefnu gweddill yr adeilad; pennu prisiau llogi ystafelloedd; glanhau byrddau a chadeiriau; gosod peiriant gwerthu diodydd ysgafn, a'r llu o fân orchwylion

Ail Gynnau'r Fflam

Braf cofnodi y bydd gan bentref Bethel dîm pêl-droed yng Nghynghrair Caernarfon a'r Cylch y tymor nesaf. Bu si ar led ers tipyn fod carfan yn y pentref yn awyddus i gael tîm. Galwyd cyfarfod cyhoeddus a bu ymateb da.

Ers sawl tymor bellach bu nifer o chwaraewyr y pentref yn ymuno â nifer o glybiau yr ardal. Y gobaith rwan yw fod nifer o chwaraewyr profiadol (nid 'hen bennau' sylwch) yn dychwelyd adref fel petai. Y gobaith yw cael tîm sy'n gymysgfa o chwaraewyr profiadol a bechgyn ieuanc lleol sydd wedi cynrychioli timau iau y pentref, ond sydd wedi gorfod ymuno â chlybiau -17 eraill er mwyn cael gêm.

Yr hyn sy'n galonogol yw fod nifer o unigolion a busnesau lleol wedi noddi'r clwb yn ariannol ac eisoes cafwyd dau noddwr ar gyfer dillad chwarae. Ceir mwy o fanylion yn y rhifyn nesaf.

Fel yr awgrymwyd yn y rhifyn diwethaf, mae'r 'babi newydd' eisoes yn gwerthfawrogi parodrwydd Prifathro a Llywodraethwyr Ysgol Brynrefail am eu caniatad i ddefnyddio maes chwarae'r ysgol hyd nes gellir cael cartref swyddogol ym Methel.

Yn dilyn y cyfarfod cyhoeddus etholwyd y canlynol: Llywydd: Dewi Rowlands; Cadeirydd: Trefor Foulkes; Ysgrifennydd/Trysorydd: Tecwyn Hughes; Rheolwr: Alan Williams; Cymorth Cyntaf: Iolo Morgan; Pwyllgor: Andrew Williams, Eilir Birkett, Richard Lloyd Jones a Dylan Williams.

Effaith Twristiaeth ar yr Iaith Gymraeg – adroddiad pwysig ar dudalen 8

eraill fydd angen eu gwneud i sicrhau cartref cysurus a buddiol i holl wahanol fudiadau'r pentref. Rhan o'r cynllun uchelgeisiol fydd gosod cyfrifiaduron yn un o'r ystafelloedd er mwyn gallu cynnig cyrsiau amrywiol i unrhyw un sydd am ymgynefino â'r dechnoleg newydd.

parhad ar dudalen 17

ECO'R WYDDFA

**RHIF 279
MEHEFIN**

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Golygyddol:

JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872390

IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
Ffôn: (01286) 675649

Cadeirydd Pwyllgor Llywio:
ARWEL JONES
CAE EBONI, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 871274

E-bost: ecorwyddfa@AOL.com

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard L. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

DYDDIADUR Y MIS

Mrs Margaret Cyfni Griffith, Cynfi,
Deiniolen (870394)

FFOTOGRAFFWR

Gwynhaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION

John Roberts, Bedw Gwynion, Ffordd
Glanfynnon, Llanrug (675605)

TREFNYDD BWNDELU

Jean Jones, Cesail y Mynydd,
Deiniolen (871550)

TRERFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST

Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach,
Llanrug (650200)

TREFNYDD PLYGU

Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650788)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DEINIOLLEN: W. O. Williams,
6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)

DINORWIG: Marian Jones, Minalt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts,
Becws Eryri (870491)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn
(675384)

NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant
Ffynnon (871820)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth
(872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon,
Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS LUN, MEHEFIN 18

Os gwelwch yn dda
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, MEHEFIN 28

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr. (01286) 650570

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Plygu	Ble	Cysylltu a
Gorffennaf Awst Medi Hydref Tachwedd Rhagfyr	Mehefin 18 Awst 27 Medi 17 Hydref 22 Tachwedd 19	Mehefin 28 Medi 6 Medi 27 Tachwedd 1 Tachwedd 29	Bethel Dinorwig Penisarwaun Llanberis Caeathro	Mr Geraint Elis Miss Marian Jones Mrs Ann Evans Mr Gwilym Evans Mr Clive James

Llythyrau

Annwyl Olygydd,

Carwn ymateb i lythyr Jane
O'Donnell yn rhifyn Mai o'r
Eco. Mae'n fy nghyhuddo o:

- ddweud mai Richard a
Catherine Roberts a fagodd
David Roberts;
- o wneud 'cymaint o
gamgymeriadau mewn un
paragraff yn y llyfr';
- o gamarwain darllenwyr y
dyfodol oherwydd 'fod y
ffeithiau yn anghywir' a

d) fod y cyfeiriadau at yr achos
Llys 'yn hynod o unochrog'.

Ynglŷn ag (a) uchod, os y
gwnaiff Jane O'Donnell ail-
edrych ar dudalen 33, fe welir
mai Richard a Catherine
Williams, ac nid Roberts, sydd
yn y llyfr, a dyma'r eglurhad sut
y digwyddodd hyn. Anfonais air
at aelod o deulu'r Helfa, gŵr y
mae gennyf gryn barch tuag ato,
sef Huw (Ron) Roberts,
Pwllheli i ofyn am y manylion.
Anfonodd Huw yn ôl ataf gan
nodi fel a ganlyn:

*'Daeth teulu y bobl ddaru
fabwysiadu 'nhad i fyw i'r Helfa
Fawr o blwy' Llanbeblig, sef
Richard Williams a'i briod
Catherine a'i dau fab, Henry a
Richard...' Peth digon naturiol i
mi oedd tybio mai y ddau
benteulu, sef Richard a'i briod
Catherine, a fagodd David
Roberts. Yn nhreigladr yr amser
fe ymddengys, y mab Henry a'i
briod a wnaeth hynny, ond drwy
gamddehongli'r nodiadau
roeddwn i wedi rhoi'r
cyfrifoldeb ar y rhieni yn lle'r
mab, a chamddehongli ydoedd*

ac nid camgymeriad fel y mae
Huw Roberts ei hun yn barod
iawn i gydnabod. Wedi'r cyfan
cadwer mewn cof mai ei dad ef
oedd David Roberts. Yn
ychwanegol at hyn, ac eto mae
Huw Roberts yn cytuno'n llwyr,
brycheuyn bach iawn oedd y
cymysgu dwy genhedlaeth yn y
cyswllt hwn. Haerllugrwydd y
cyfan, Mr Golygydd, yw fod
Jane O'Donnell yn pardduo'r
llyfr cyfan yn sgîl y
camddehongli hwn.

Ynglŷn â'r honiad fod 'llu o
camgymeriadau mewn un
paragraff' methaf yn lân â gweld
yr un camgymeriad yn yr ail
baragraff ar dudalen 33, a dyna
farn aelodau eraill o'r teulu yn
ogystal. Hawdd iawn oedd i Mrs
O'Donnell ddweud hyn heb
restru'r camgymeriadau
honedig.

Ynglŷn â charmarwain
darllenwyr y dyfodol, nid oes
raid i mi geisio ateb sylw mor
ffiaidd.

Ymddengys nad yw Jane
O'Donnell yn or-hoff i mi
gynnwys hanes yr anghydfod
rhwng teulu'r Helfa Fawr a
theulu'r Helfa Fain. Yr oedd y
stori hon yn unigryw ac ni
feiddiwn ei gadael allan o'r
gyfrol. Nid hanesyn i ffantasi
oedd hyn. Fe ddigwyddodd ac
mae wedi ei groniclo a'i gofnodi
yn ffeiliau Stad y Faenol.
Parthed hyd y gofod i lythyr
Henry Williams a'r brodyr
Pritchard, y gwir yw i mi
ddyfynnu a chofnodi pob
llythyr fel yr oeddynt yng
nghofnodion y Faenol. Wrth
reswm gan mai diffinyddion
oedd y brodyr Pritchard roedd
eu llythyron nhw o'r herwydd
yn fwy cynhwysfawr ac amlach.

Mae yna hen ddywediad fod
'angen ceiliog gwyn i ganu' ac

mae hyn yn wir ynglŷn â llythyr
Jane O'Donnell. Yn nhrydydd
paragraff ei llythyr dywed (yn
gywir) mai Richard ac Ellen
oedd rhieni Maggie, ond yn y
pumed paragraff mae yn dweud
mai merch Henry Williams
oedd hi!

Carwn ychwanegu i mi
ymweld â chartref ei Anti
Maggie yn Llanrug ar ddau
achlysur, ond yn anffodus
methais â chael sgwrs â hi.
Mae'n eithaf posib y byddai
mwy o hanes Henry Williams
yn y llyfr pe byddem wedi cael
sgwrs, a hefyd pe byddai Jane
O'Donnell, fel y gwnaeth
amryw eraill, wedi ymateb i fy
llythyr yn yr Eco yn 1999 yn
gwahodd unrhyw un oedd yn
berchen llun neu stori am
deuluoedd Gwaun Cwm
Brwynog i gysylltu â mi. I gloi,
methaf ddeall pam na fyddai
Mrs O'Donnell wedi cysylltu â
mi yn bersonol yn hytrach na
golchi dillad yn gyhoeddus yn y
Wasg a dwyn sylw dianghenraid
i deulu parchus yr Helfa.

Rhaid dweud i frawddeg olaf
paragraff cyntaf ei llythyr fy
nghythraddo'n fawr. Nid oes
rhaid iddi ofyn i mi ai ffuglen
ynte ffaith yw'r llyfr, mae'r
ymateb a fu ar ôl ei gyhoeddi a'r
ugeiniau o lythyron, sgysia, cyfarchion a gefais a sawl
adolygiad ffafriol, wedi bod yn
galondid mawr i mi ac mae
gofyn ai ffuglen yw ei gynnwys
wedi'r holl waith ymchwil, nid
yn unig yn sen, ond yn ymylu ar
fod yn enllib hefyd.

Yn gywir,
Rol Williams

Cefnogwch ein hysbysebwy



CASTELL BOWNSIO AR GYFER POB ACHLYSUR

Down â fo atoch
a'i nôl wedyn

Ffôn: 871782

CRONFA GOFFA R.H.OWEN

Gwahoddir ceisiadau am grantiau a
benthyciadau o'r Gronfa uchod. Ceir y manylion a'r
amodau drwy anfon amlen gyda stamp â chyfeiriad
arno i'r Ysgrifennydd.

John H. Hughes

Tan y Clogwyn

Llanberis. Gwynedd LL55 4LF

Ffôn: (01286) 871 562

Y ceisiadau i gyrraedd yr Ysgrifennydd erbyn
Awst 31ain, 2001.

Ni ystyrir unrhyw gais a ddaw i law ar ôl
y dyddiad cau penodedig.

Gwirfoddoli yn Uganda

Y flwyddyn nesaf bydd un o ddisgyblion chweched dosbarth Brynrefail yn dechrau antur newydd.

Mae Zoe Anderson, sy'n 17 mlwydd oed ac yn astudio Ffiseg, Cemeg a Mathemateg Lefel A yn bwriadu gwirfoddoli i roi blwyddyn o'i hamser i ddysgu yn Uganda.

Cafodd Zoe ei dewis i wneud y gwaith gan Prosiect Trust ar gwrs hyfforddi 4 diwrnod, briffio a di-briffio ar Ynys Coll yn yr Alban.

Bydd yn dysgu amrywiaeth o bynciau mewn Ysgol Uwchradd yn ne orllewin Uganda. Dywed yn y pamffled wybodaeth a baratodd i hybu ei hachos, 'Bydd fy addysg gyfun yn cael ei ddefnyddio er lles rhai llai ffodus na fi, heb gymryd gwaith y bobl leol.' Mae'r ysgolion yn gwerthfawrogi'r cymorth gan y gwirfoddolwyr ifanc hyn o Ewrop sy'n dod a brwdfrydedd a syniadau dysgu modern i'r ysgol, heb fod yn fygythiad i'w ffordd o 'wneud pethau'.

Eisoes mae Zoe wedi casglu

dros £2,000 i ariannu'r cynllun drwy gynnal dau fore coffi, ysgrifennu at elusennau ac wrth dderbyn cyfraniadau gan deulu a ffrindiau.

Ar hyn o bryd mae'n casglu arian noddi i nofio lled Llyn Padarn ac yn ôl, ac yn sicrhau byddai unrhyw gyfraniadau yn cael ei werthfawrogi'n fawr.

Hyderwn y bydd yr antur yn un werthfawr i Zoe ac i ddisgyblion Uganda a dymunwn bob llwyddiant iddi yn y flwyddyn gyffrous nesaf.

Merched y Wawr Rhanbarth Arfon

Cynhelir noson yn 'Rhannu a Blasu Crefftau' yn neuadd Rhiwlas, nos Wener, 8 Mehefin am 6.30 o'r gloch. Tal mynediad (drwy docyn neu wrth y drws) fydd 50c, yn cynnwys paned.

Croeso cynnes iawn i aelodau a chyfeillion.

PLYGU'R ECO

Cofiwch nos Iau,
28 Mehefin
Neuadd Goffa
Bethel

Peidiwch gori
ar stori.
Anfonwch hi
i'r ECO

Jac ar S4C



Jac gyda'i fam Einir (chwith), Dafydd Emyr a Catrin Fychan.

Mae Jac Tomos Jones yn dipyn o seren! Dyna farn gwylwyr S4C sydd wedi mwynhau gweld Jac yn y gyfres ddrama ysgafn, **mae gen i gariad...** yn ddiweddar.

Jac sydd wedi bod yn chwarae rhan Deio, mab bach dau o brif gymeriadau'r gyfres, Dewi (Dafydd Emyr) a Bethan (Catrin Fychan).

Hogyn naw mis oed o Lanberis ydy Jac, ac mae ei fam Einir yn dweud ei fod yn amlwg wedi mwynhau ei hun yn ystod y cyfnod ffilmio. 'Mae o wedi bod wrth ei fodd er tydi o erioed wedi gwneud unrhyw beth fel hyn o'r blaen,' meddai.

'Mae Jac wedi bod yn wych,' meddai llefarydd ar ran cwmni cynhyrchu **mae gen i gariad...**, Ffilmiau'r Nant. 'Mae'n

naturiol iawn o flaen y camera, ac mae pawb wedi syrthio mewn cariad efo fo!'

Awdur **mae gen i gariad...** ydy Graham Jones, sy'n byw ym Mhenisarwaun. Dyma'r ail gyfres iddo ysgrifennu am drafferthion Dewi, boi yn ei dridegau sy'n dipyn o gadach gwlanan, sydd ddim wedi tyfu i fyny, ac sydd ddim yn deall merched o gwbl!

Cefnogwch
ein
hysbysebwyrr

www.s4c.co.uk



Cydweithio. Cyd-fyw... ond am ba hyd?

IECHYD DA

9.00PM

BOB NOS SUL

YN CYCHWYN 10 MEHEFIN

TRANSL888/889

AILDDARLLEIDIAD BOB NOS FAWRTH

S4C

O SIAMBAR SELWYN

Mae'n gas gen i glirio. Ond does gen i ddim dewis. Rhaid hel holl lyfrau a ffeiliau a dogfennau plwy Llanddeiniolen, yn barod at eu trosglwyddo i gartre'r Clerc newydd yn Neiniolen.

Dwi'n cofio derbyn yr holl ddogfennau a'u gosod nhw ar lawr Bryn Alun, Bethel a gofyn i mi fy hun - 'Pam gebyst y cymerais i yr holl gyfrifoldeb ar fy ysgwyddau?' Ond buan iawn yr aeth popeth i'w le, ar ôl i mi adeiladu swyddfa ym mhen draw yr ardd, gan fod Bryn Alun yn rhy fach. Ond erbyn heddiw mae 'na fwy o ohebiaethau i'w trafod a'u cadw - yn wir mae'n dda fod 'na atig yn y tŷ yma fel y galla i gadw 'mini archifdy' yma.

Ond rwy'n syrthio ar fy mai. Mae'n gas gen i daflu unrhyw beth i'r faged. Y dyddiau diwetha 'ma dwi wedi dod ar draws dwsinau o hen bryddestau a cherddi y byddwn i yn arfer eu hanfon i eisteddfodau er mwyn dodrefnu'r tŷ yn rhad. O ydw, rydw i'n cyfadde i mi anfon yr un gerdd sawl tro i wahanol eisteddfod ar wahanol destunau, a chodi ar alwad y corn gwlad i ennill cadair neu goron. Ond roeddwn i mewn cwmni da.

Darllenwch chi *Gofiant Dewi Emrys* gan Eluned Phillips, ac fe welwch chi fod Dewi yn hen law ar fenthyca o'i waith ei hun ac ail-wampio cerddi ar gyfer gwahanol eisteddfodau - gan gynnwys y Genedlaethol. Yn wir deuir ar draws llinellau yn awdl *Y Proffwyd* a anfonodd i Eisteddfod Genedlaethol Corwen yn 1919 yn ei awdl gadeiriol olaf yn Eisteddfod Pen-y-bont ar Ogwr yn 1949.

Fe gyhuddwyd R. Williams Parry hefyd gan neb llai na'r Athro John Morris-Jones am iddo ladrata o'i waith ei hun. Yn 1908 enillodd R. W. P. y Gadair Ryng-golegol ym Mangor ar y testun *Cantre'r Gwaelod*, o dan feirniadaeth John Morris-Jones. Yn Eisteddfod Genedlaethol Llundain 1909 testun yr awdl

oedd *Gwlad y Bryniau*, a'r beirniad (un ohonynt) oedd John Morris-Jones. Roedd R. W. P. wedi cynnwys rhai llinellau o'r awdl *Cantre'r Gwaelod* ac fe ddywedodd John Morris-Jones yn blwmp ac yn blaen ei fod o 'wedi gweld rhannau helaeth o'r awdl hon mewn awdl arall lle roeddynt yn cymryd eu lle yn llawer gwell.' Ac fe roddodd air o gerydd a gair o galondid i R. W. P. 'Nid oes raid i'r ymgeisydd hwn ladrata arno'i hun. Y mae ganddo ddigon o ddawn.'

Wrandawodd R. W. P. ar gyngor J. M.-J? Naddo, oherwydd y flwyddyn ddilynol, 1910, pan enillodd o ar awdl *Yr Haf*, fe welir fod 'na nifer o linellau yn yr awdl odidog honno oedd eisoes wedi gweld golau dydd mewn awdlau cynharach:

Cantre'r Gwaelod

Y gwyrdd fôr yn gorwedd fel
Gwridog haul hyd y gorwel

Adar nef, dirion afiaith
Godant, ehedant i'w taith.
O drum i drum, ddau neu dri
Yn gyforiog o firi.

Yr Haf

A gwyrdd fôr yn gorwedd fel
Gwridog fôr hyd y gorwel.

Ag adar haf o afiaith
Godant, ehedant i'w taith
O drum i drum, ddau neu dri
Yn gyforiog o firi.

Digon o waith i R.W.P. gystadlu ar ôl 1910. Bardd dwy gadair oedd o - ond un o feirdd mwya Cymru, heb os. Rhywun yn gofyn iddo mewn syndod unwaith: 'Dew dim ond dwy gadair sgen ti, Bob?' 'Ia,' meddai'r Prifardd, 'Un tin sy gen i te?'

Ydi, ma rhywun yn dod ar draws petha diddorol wrth glirio. Roedd gen i hen gopiâu eisteddfodol o'r *Cymro* yn llechu mewn un drôr. Lluniau cadeirio Gerallt Lloyd Owen a Jâms Niclas a Moses Glyn Jones.

Coroni W. R. P. George, Eluned Phillips a Dafydd Rowlands. Fe es i a'r rhain i gyfarfod o Fwrdd yr Orsedd i Aberystwyth yn ddiweddar ac roedd W. R. P. George a Jâms Niclas yn falch ohonyn nhw. Fe roddais y llun o Dafydd Rowlands i'r Archdderwydd Meirion i fynd a fo iddo, ond o fewn ychydig ddyddiau fe glywyd am farwolaeth y cyn-Archdderwydd. Bydd, mi fydd yn chwith hebdo yn seremonïau'r Orsedd ac yng nghyfarfodydd yr Bwrdd. Un arall o'n cyn-Archdderwyddon a gyflawnodd ei ddyletswyddau gydag urddas.

Mae gen i dipyn go dda o waith clirio eto. Mae'r hen bryddestau sych a nifer o'r cerddi talcen slip eisoes wedi mynd hefo'r lludw i ardal y Cilgwyn, ond mae 'na ambell lythyr go ddiddorol wedi mynd yn ôl i'r drôr.

Pam ys gwn i y gwnes i gadw'r englynion hyn, a phwy yw eu hawduron?

Peiriant Godro

Un medrus yw am odro -
heria loi

Gorau'r wlad am sugno,
A daliaf nad oes dwylo
At y gwaith mor dwt ag o.

A dyma englyn a anfonwyd i Meuryn pan oedd o yn gyfrifol am y Golofn Farddol yn *Y Cymro*. Daeth hwn o Awstralia drwy'r post.

On beeline from down below -
Par Avion

Private to THE CYMRO,
SNOWDONIA, WALES, and
you know

To MEURYN by tomorrow.

Do, fe gyrhaeddodd yn ddiogel, ond digon o waith 'by tomorrow'. Mae'n gas gen i glirio - ond mi rydw i'n dod ar draws petha diddorol iawn. Pwy ŵyr be sy'n llechu yn y drôr nesa!

O.N. Os oes 'na ddarllenwyr yr Eco sy'n awyddus i gael nifer go helaeth o ôl-rifynnau o'r Eco - cysylltwch â fi. Crud-yr-Awen, Penisarwaun. (01286) 870095. Rhaid eu clirio'n anffodus.

Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

Cadeiriwyd y Cyngor Blynnyddol gan Miss Phyllis Ellis, Penisarwaun. Estynnwyd croeso i Mr Eurwyn Griffith, Swyddog Adfywio Bro, a chafwyd ganddo amlinelliad o'i gyfrifoldebau ac y byddai yn anelu at sbarduno cymunedau a'u cynorthwyo i gario allan brosiectau a fyddai o fudd i'r ardaloedd.

Eglurodd y clerc fod yr Archwilwyr wedi cadarnhau cyfrifon 1990-2000 a bod hysbyseb o'r cadarnhad wedi ei arddangos yn Swyddfeydd Post y plwyf.

Dewiswyd Phyllip Jones (Ward Dinorwig), Gwilym Williams (Ward Clwt-y-bont) ynghyd â Len Jones i wasanaethu ar Fwrdd Partneriaeth Cymunedau Gwaun Gynfi.

Cyflwynwyd yr adroddiad ariannol blynnyddol i sylw'r Cyngor ac fe'i derbyniwyd. Nid

oedd unrhyw wrthwynebiad i'r ceisidau cynllunio a ddaeth i law yn ystod y mis. Derbyniwyd yr amcangyfrifon am dorri tyfiant ar y llwybrau cyhoeddus pan geir cadarnhad i wneud hynny.

Cadeirydd y Cyngor am y flwyddyn ariannol 2001-2002 fydd Len Jones, Deiniolen. Gohiriwyd dewis Is-gadeirydd tan y Cyngor nesaf.

Hwn oedd cyfarfod olaf y clerc (Mr Selwyn Griffith). Bydd y clerc newydd, Mr John B. Jones, Ceris, Deiniolen, yn dechrau ar ei ddyletswyddau yn swyddogol yng nghyfarfod nesaf y Cyngor ar Orffennaf 3. Yn y cyfamser fe drefnir i drosglwyddo eiddo'r Cyngor i Ddeiniolen.

Cefnogwch
ein Hysbysebwy

GORSAF BETROL

Esso BERAN

DEINIOLEN

Ffôn: (01286) 871521

Ar agor 7 a.m. - 9 p.m. bob diwrnod

**Petrol • Disel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd • Wyau
Nwyddau Groser • Melysion**

TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!

G. EVANS



**ARBENIGWYR TRWSIO
CYRFF CEIR**

Uned 4, Stad Ddiwydiannol Brynafon, Llanrug

(01286) 678030

GWASANAETH ARGYFWNG PLYMIO

24 awr y dydd - 7 diwrnod yr wythnos

PLUM24CYM

**Gwaith Plymio • Gosod Ceginau a Bathrwm
Gwaith cynnal a chadw o bob math**

Cysylltwch â **DOUG JONES**, BRON EIFION, WAUNFAWR
Ffôn: (01286) 650363 (0797) 0318996 (symudol)

Un funud fach ...

ETHOLIAD

Cyn i ni fwrw pleidlais yn yr Etholiad yr wythnos nesaf mae'n debyg y byddwn wedi darllen a gwrando digon ar yr ymgeiswyr.

Cawn wybod gobeithio beth sydd ganddynt i'w gynnig i ni. Mae'r manifestos yn addo gwaith, a gwell ysgolion ac ysbytai, a rhagor o blismyn, a mwy o bensiwn, a help i'r amaethwyr.

Byddai'n braf gwybod fod yr ymgeiswyr yn ddibynadwy ac yn debygol o gadw'r addewidion mawr a wnaed ganddynt. Ond y peryg yw y bydd meistri sbîn y Llywodraeth Lafur newydd - os cywir yr holl ragolygon - yn ein cysuro â'r geiriau 'Tony ydi Tony' pan fydd y Prif Weinidog yn torri unrhyw addewid etholiadol. Yn yr un ffordd mae'n debyg ac yr esgusododd Mr Blair Reiat y Rhyl trwy fynnu mai 'John ydi John'.

Ac mae'n bwysig i ni wybod pwy mae'r ymgeiswyr yn ei gynrychioli? Daw ambell un atom yn ei enw ei hun ond mae'r mwyafrif yn sefyll yn enw plaid. Lliw'r blaid yw'r unig beth sy'n cyfrif yn aml, a chlywsoch am ambell etholaeth fyddai'n ethol mwnci ond iddo sefyll yn enw'r blaid gywir.

Mae'r Iesu'n ei gynnig ei hunan i ni. Ac mae'n cynnig mwy nag unrhyw wleidydd. Mae'n cynnig tangnefedd, a maddeuant, a nerth, a chysur, a chymorth, a bywyd am byth yn y nefoedd.

Mae'r Iesu'n gwbl ddibynadwy. Thorrodd o yr un addewid erioed. Gall bywyd eich siomi. Gall cyfeillion a theulu eich siomi. Gall eglwys a gweinidog a chrefydd eich siomi. Ond dydi Iesu Grist ddim yn siomi neb sy'n pwyso arno.

A'r rheswm gorau sydd gennym dros bwysio arno ydi bod Iesu Grist wedi dod oddi wrth Dduw ei hun. Mae wedi dod atom yn enw Duw. Mab Duw ydyw, yn siarad drosto ac yn cynnig y cyfan yn enw Duw.

Ac wrth i ni ei ddewis a'i dderbyn yn Waredwr ac yn Arglwydd bydd yn ein cynrychioli ninnau gerbron gorsedd Duw. Bydd yn dadlau ein hachos ac yn amddiffyn ein buddiannau ac yn eiriol drosom. Byddai'n dda cael gwleidyddion tebyg iddo.

JOHN PRITCHARD

Perl Arall gan Awdur Toreithiog

Yn ystod y mis cyhoeddodd Gwasg Carreg Gwalch lyfr arall gan un o gyfranwyr selocaf yr Eco. Cydnabyddir John Williams erbyn hyn fel un o awduron mwyaf toreithiog Cymru - a hynny yn y ddwy iaith. Aeth Gareth Heulfryn gam ymhellach yn ei froliant ohono - 'John Williams is one of our best living writers: in Welsh and English - Wales' own Laurie Lee'. Cytunaf innau'n llwyr. Dyma awdur clasuron fel 'Clouds of Time', 'Dychweliad y Deryn Mawr' a'r casgliad anhygoel o'r straeon digri rheiny 'Straeon Cyfar Main', heb sôn am ei nofel a'i lyfrau i blant.

Medda John Williams ddawn y cyfarwydd. Fel yr ysgrifennodd Christopher Hall golygydd 'The Countryman' amdano, 'To readers of The Countryman, John Williams is a familiar teller of tales...' Rhaid cofio nad yw pawb yn cael cyfrannu i'r cylchgrawn hynod boblogaidd hwnnw. Fel un sydd wedi cael pleser a mwynhad o dreulio sawl orig yn ei gwmni, gallaf edrych arnynt fel profiadau amheuthun. Nid yn aml y mae rhywun yn cael y profiad o eistedd i wrando ar storiwr difyr y dyddiau yma. Teimlaf ar ôl treulio amser yng nghwmni John fod y ddawn dweud o hyd yn fyw, ond yn bwysicach - yn iach. Mae wedi ei fagu a'i fwydo yn swm iaith gyhyrog Llan'iolen ddechrau'r ugeinfed ganrif, a honno fel tae wedi styfnigo rhywsut a gwrthod yn lân a'i adael. Gan fod yr awdur yn dalp o werinwr diwylliedig, ac wedi byw bywyd hynod ddiddorol, yn anghonfensiynol ar brydiau, ac yn amrywiol ei brofiadau yma yng Nghymru, yn Lloegr a thu hwnt, nid rhyfedd fod ei apêl ysgrifennu mor eang.

'Rare Welsh Bits' yw ei gampwaith diweddaraf. Ceir yma, yn yr iaith fain, gasgliad o straeon byrion amrywiol. Rhai ohonynt yn dyddio'n ôl i'w ddyddiau fel glaslan ym



Yr awdur a'i hen gyfeilles ysgol ers tros hanner canrif, Joan Rees.

mhlwy' Llanddeiniolen, eraill â thinc yr oes fodern ynddynt. Mae eu lleoliadau yn amrywio o Frynsiencyn i Dyffryn Evesham ac o borthladd Caergybi i ogofâu Sipsiwn Sacro Monte, Andalusia.

Fel yn y rhan fwyaf o'i gasgliadau, ceir y lleddf a'r llon a'r anisgwyl, y cymeriadu a'r portreadu cywain, y disgrifio cynnil ynghyd â'r troeon trwstan bythgofiadwy. Mentra hefyd, yn llwyddiannus, i fyd y goruwchnaturiol. Dyma pam, o bosib, y cyfeiriodd Jan Morris yn ei chyflwyniad i'r llyfr, 'That is why this collection of his writings is quite unlike anything else. Reading it is like a hallucinatory journey through time.'

Dyma ddywedodd yr awdures enwog Jilly Cooper am y llyfr: 'Thank you so much for "Rare Welsh Bits" which is absolutely lovely and great fun. I enjoyed it and it is beautifully produced; a lovely book. Many congratulations.'

Mae'r casgliad hwn yn frith o berlau, ond mae un yn sefyll allan ac yn disgleirio'n ogoneddus o ddisglair. Cyfrifaf 'The Boy with the Horses' yn ysgrif yn hytrach na stori fer. Ond dyma un o'r disgrifiadau

manyla, mwyaf diddorol ac addysgiadol i mi erioed ei ddarllen am un o hen arferion cefn gwlad - y profiad a'r ddawn o yrru'r wedd. Nid wyf am ymhelaethu, gadawaf i'r darllenydd brofi'r un wefr ac a brofais i. Ar ôl darllen yr ysgrif hon y deallais arwyddocad broliant Dr. Jean-Baptiste Picy, gynt o Brifysgol y Sorbonne, Paris amdano - 'Not a man answering the criteria of the so called literate elite, but deriving his culture from his own sources...' Dyn cefn gwlad, wedi ei wreiddio'n ddwfn ym mhridd Llan'iolen ac yn ymatebol i undyn byw, sydd rhwng cloriau'r llyfr hwn, nid moesymgrymwr i fudiadau llengar crachaid y genedl.

Un gwyn sydd gennyf - mae'r llyfr yn llawer rhy fyr. Fe'i darllenas i gyd rhwng amser te ac amser clwydo gan awchu am fwy. Gwn yn iawn fod ganddo fwy o straeon a gwn hefyd fod ambell un yn cyniwa'r yn y cof ar hyn o bryd. Y cwbl fedra i wneud ydi disgwyl yn eiddgar am y casgliad nesaf!

A.J.

Rare Welsh Bits: John Williams, Gwasg Carreg Gwalch. Pris £4.50



**ORIEL
CWM
Cwm y Glo**

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio

Lluniau o bob math

ar gael ar y safle

Prisiau Rhesymol

Arddangosfa o luniau

gwreiddiol gan

Artistiaid Lleol

Richard S. Humphreys

Pa un o'r rhain sydd
bwysicaf?

YSWIRIO EICH TŶ
(i arbed colled i chi);

YSWIRIO EICH CAR
(i arbed colled i chi); neu

YSWIRIO EICH BYWYD
(i arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad
yw cost yswiriant gyda **CDH**

Andre (Bethel/Llanberis)
Bryn (Môn)

Euryn (Caernarfon a'r cylch)
John Eifion (Penisarwaun)

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)

Ffôn: (01248) 355055

**E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis**

Ffôn: (01286) 870202

**TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU**

CHWILOTA

ARDDANGOSFA GARDDWRIAETH LLANBERIS



Daeth mwy o wybodaeth am ychwaneg o gystadleuthau holli a naddu llechi i'r amlwg yn ystod yr wythnosau diwethaf. Mae'n ymddangos fod cystadleuaeth o'r fath wedi ei chynnal yn ystod Arddangosfeydd Garddwriaeth Llanberis. Daeth cwpan am ennill un o'r cystadleuthau hyn i'r amlwg, a hwnnw wedi ei gyflwyno i J. J. Williams, Cerrig Llwydion, Dinorwig yn 1892. (*Mae'r llun gyferbyn yn ei ddangos*).

O chwilota yng nghyrolau'r Herald Cymraeg am y flwyddyn honno, daeth yn amlwg mai yn ystod Arddangosfa Garddwriaeth Llanberis y cynhaliwyd y gystadleuaeth, ond disgrifir yr arddangosfa fel y bedwaredd i'w chynnal yn Llanberis, felly roedd angen troi'n ôl i 1889, sef dyddiad cynnal yr arddangosfa gyntaf. Cynhaliwyd honno ganol fis Awst, ac fe'i disgrifir fel Arddangosfa Cŵn Defaid a Garddwriaeth Llanberis. Mae dau adroddiad yn yr Herald Cymraeg amdani – un yn rhoi rhestr yr holl enillwyr yn y gwahanol gategoriâu, oedd yn cynnwys adrannau i gŵn, dofednod, colomenod, adar cawell, llysiau, ffrwythau, blodau, defaid, menyn, mêl a wyau. Mae'r ail adroddiad yn rhoi rhywfaint o'i hanes. Cynhaliwyd yr arddangosfa mewn cae gerllaw'r rheilffordd, a thu cefn i Padarn Villa Hotel – mae'n ymddangos felly mai cae pêl-droed presennol Llanberis oedd y lleoliad. Ar ddydd Iau y cynhaliwyd y sioe, ac yr oedd pabell arbennig wedi ei chodi yn y cae ar gyfer y cynnyrch gardd. Seindorf Arian y Vaynol dan arweiniad Mr Ayres oedd yn diddori'r gynulleidfa. (*Seindorf Llanberis oedd hon mewn gwirionedd, er mai Llanrug oedd yn hawlio'r enw am flynyddoedd cyn iddynt dorri streic a cholli'r teitl a'r offerynnau oddi ar y Faenol- ond stori arall yw honno*).

Cynhaliwyd cystadleuaeth gneifio oen yn yr arddangosfa gyntaf hon, gyda dau frawd o Lanberis yn ennill y gwobrau

cyntaf ac ail, a hynny i gystadleuaeth oedd yn agored i unrhyw gneifiwr yng ngogledd Cymru! Ellis Owen, Hafoty oedd yn fuddugol, a'i frawd, Griffith yn ail. Ond doedd dim sôn am gystadleuaeth holli a naddu llechi yn yr arddangosfa gyntaf hon.

J. Lloyd Williams, Llanberis oedd ysgrifennydd a hyrwyddwr yr arddangosfa gyntaf, a châi ei noddi gan amryw o dirfeddianwyr lleol

Cynhaliwyd yr ail arddangosfa ym mis Awst 1890 ar yr un safle, ac, er iddi fwrw glaw yn drwm gydol y diwrnod, daeth cannoedd i ymweld â'r arddangosfa oherwydd fod trenau rhad wedi eu trefnu o wahanol drefi yng ngogledd Cymru.

Erbyn yr ail arddangosfa, roedd cystadleuaeth bandiau pres wedi ei threfnu. Anfonwyd enwau unarddeg o fandiau i'r gystadleuaeth, ond pedwar yn unig a ymddangosodd ar y diwrnod, sef Band y Vaynol, Llanberis, Band Arian yr Oakley, Blaenau Ffestiniog, Band Pres Llan Ffestiniog a Band Pres Llanrug. Roedd dwy gystadleuaeth – martsio o'r Castle Hotel i faes yr arddangosfa, ac yna perfformio yn y cae. Band Llan Ffestiniog ddaeth yn fuddugol yn y ddwy gystadleuaeth, a cheir y feirniadaeth lawn wedi ei chyhoeddi yn y papur gan fod cymaint o ddiddordeb mewn bandiau yn y cylchoedd hyn bryd hynny.

Roedd y gystadleuaeth cneifio oen yn cael ei chynnal

eto, a'r tro hwn, yr un ddau frawd oedd y buddugwyr, ond y drefn wedi newid. Unwaith eto, does dim sôn am gystadleuaeth holli a naddu llechi.

Roedd y drydedd arddangosfa yn fwy o lwyddiant na'r ddwy gyntaf. Roedd 732 o wahanol gynigion wedi eu hanfon i'r ail arddangosfa. Y tro hwn, cafwyd 250 yn ychwanegol – bron i fil o gynigion felly yn y gwahanol adrannau. Erbyn hyn, roedd adrannau ychwanegol i geffylau, gwartheg a lloi wedi eu cynnwys. Dwy seindorf yn unig oedd yn cystadlu – y Vaynol, Llanberis a Llan Ffestiniog, ac unwaith eto, Band Llan Ffestiniog aeth â'r gwobrau. Canmolod yr holl enillwyr yn y gwahanol adrannau yn yr adroddiad i'r Herald Cymraeg, a gwnaethpwyd un sylw arbennig am fuwch o eiddo Henry Parry, Glanrafon, Pontrug : *'yr oedd hon yn fuwch neillduol o dda, ond nid oedd o frid Cymreig, felly ni chafodd wobwr.'*

Yn y drydedd arddangosfa y cynhaliwyd y gystadleuaeth holli a naddu llechi am y tro cyntaf. Cyflwynwyd cwpan arian i'r enillydd gan Gwmni Morris a Davies, Caernarfon. Hugh Pritchard, Glanllyn, Rhostryfan oedd yn fuddugol, gyda Thomas C. Williams, Garregwen, Llanberis yn ail. Tybed ble mae'r cwpan arian hwnnw erbyn heddiw?

Yn y bedwaredd arddangosfa, cynhaliwyd dwy o gystadl-euthau holli a naddu, ac mae'n ymddangos nad oedd y trefnwyr wedi bod yn rhy hoff o'r ffaith i'r cwpan cyntaf gael ei ennill gan rywun o'r tu allan i'r fro. Roedd y gystadleuaeth gyntaf wedi ei chyfyngu i weithwyr chwareli llechi plwyfi Llanddeiniolen, Llanrug a Llanberis, a hwn oedd y cwpan arian a enillwyd gan J. J. Williams, Cerrig Llwydion,

Dinorwig, gyda Richard Price, Vaynol Terrace, Ebenezer yn ail. Unwaith eto, Cwmni Morris a Davies o Gaernarfon oedd wedi cyflwyno'r cwpan, a'r beirniaid yn y gystadleuaeth oedd J. J. Evans, Marino, Caernarfon a T. H. Jones, Chwarel Dinorwig.

Roedd yr ail gystadleuaeth wedi ei chyfyngu i unrhyw chwarelwr o'r tri phlwyf. Yr enillydd yn y categori hwn oedd D. J. Davies, Ebenezer.

Am faint tybed y parhaodd yr arddangosfa flynyddol yn Llanberis, a beth ddigwyddodd i'r holl dlysau a chwpanau a enillwyd yn y gwahanol gategoriâu? A oes rhai ohonynt yn parhau yng nghartrefi rhai o drigolion bro'r 'Eco'?

Y Ferch o Ddinorwig a Chofeb ym Mhenygroes.

Gan Stanley Wrigley o Borthaethwy y daeth cymorth i ddarganfod mwy am Catherine Jane Parry. Ef yw Llyfrgellydd ac Ysgrifennydd Aelodaeth Cymdeithas Hanes Teuluoedd Gwynedd. Gan fod manylion cyfrifiad 1881 bellach wedi eu mynegeio, gallodd ddarganfod Catherine Jane Parry a'i rhieni, William ac Elizabeth yn byw yn Nhŷ Ddewi, Dinorwig. Bryd hynny, disgrifir y tad fel *'quarry agent'*. Roedd y teulu yno ddeng mlynedd ynghynt hefyd, ond *'slate examiner'* oedd William Parry bryd hynny. Yng nghyfrifiad 1871 cofnodir tri o deuluoedd yn Nhŷ Ddewi – David ac Ann Williams a'u plant, Hugh ac Elinor Hughes, a William ac Elizabeth Parry a'u plant Evan, Catherine Jane, William a Morris. Rhoddir oedran Catherine Jane yn dair oed, sy'n cyfateb i'w dyddiad geni o 1868, a'i hoedran yn 30 ar y gofeb ym Mhenygroes.

Roedd William Parry yn enedigol o blwyf Llandwrog, ac yn ôl manylion cyfrifiad 1871



Cwpan ym meddiant teulu Mr a Mrs Gordon Jones, Celyn, Deiniolen

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol



Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch **CAR**. Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava



GEMINI

Car neu Fan
Petrol neu Diesel
Carb. neu Chwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth
ni yn arbed £££ ichwi
ac yn ymestyn oes eich car

AAW

YSTAD CIBYN

CAERNARFON (01286) 673559



fe'i ganed tua 1822/23. O archwilio cofrestrau plwyf Llandwrog, yr unig William Parry a fedyddiwyd yno yn ystod y blynyddoedd hyn oedd mab William ac Ellin Parry, Ty'n Werglodd; un o efeilliaid (John oedd y mab arall). Does gen i ddim syniad ble ym mhlwyf Llandwrog y mae Ty'n Werglodd – efallai y gall rhai o ddarllenwyr 'Lleu' roi gwybod i mi.

Ganed ei wraig, Elizabeth yng Nghaernarfon. Roedd y plant i gyd wedi eu geni yn Llanddeiniolen.

Erbyn 1891 doedd William ac Elizabeth Parry ddim yn Nhŷ Ddewi nac ym Mron Elidir, ond roedd yn amlwg fod y tad wedi gwella ei swydd – o 'slate examiner' i 'quarry agent'. Nes bydd cyfrifiad 1891 wedi ei fynegeio, gwaith anodd iawn fydd darganfod ble roedd y teulu yn y flwyddyn honno. Efallai mai ar ôl 1891 y symudodd y teulu i Bron Elidir, ond gan nad yw cyfrifiad 1901 ar gael eto, rhaid disgwyl am fwy o wybodaeth.

Hen Feddyginiaethau.


Gan Eifion Roberts, Becws Eryri, y cefais fenthg hen lyfr bregus iawn yn cynnwys casgliad o lysiau a'u rhinweddau meddygol. Cyhoeddwyd Y Llysieuelyfr Teuluaid gan Peter Evans yng Nghaernarfon, a'r awdur yw David Thomas Jones,

Llanllyfni. Does dim dyddiad ar y llyfr. Mae'r awdur yn cydnabod iddo gasglu'r wybodaeth o gyfansoddiad yr enwog Nicholas Culpepper, wedi ei helaethu gan Dr Parkins, ond mae'n nodi yn ei ragymadrodd i'r 'darllenyddion' mai ar gyfer darllenwyr Cymraeg yn unig y mae'r gyfrol. 'Trwy fanwl chwilio y llyfr hwn gellwch gael cyfarwyddyd i symud ac i wellhau y rhan fwyaf o'r amrywiol ddoluriau ag y mae ein cyrph gwaelion yn ddarostyngedig iddynt.'

Mae nifer o rinweddau iachaol yn perthyn i lawer o'r llysiau a restrir yn y llyfr. Bodlonwn ar un yn unig am y tro. Dyma ryset i wneud enaint i wella cymalau wedi eu rhwymo gan oerfel.

Hanner pwys o ddail cwrw, yn leision. Chwarter pwys o ddail bresych. Berwi'r cyfan mewn pum pwys o sailm traed defaid a dau bwys o wêr eidion hyd nes bydd y dail wedi crebychu. Straenio'r cyfan a'i gadw i iro'r gewynnau. Oes rhywun o'r darllenwyr yn gwybod beth yw dail cwrw, sailm traed defaid a gwêr eidion? Ac a oes rhywun yn ddigon dewr i roi cynnig ar yr eli?

Anfonwch eich atebion (!), ac unrhyw sylw arall ar agweddau o hanes lleol i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon (01286 673515).



Blaen-ddalen y llyfr au hen feddyginiaethau – eiddo Eifion Roberts, Becws Eryri. Llanberis.

Etholiad Cyffredinol

Etholaeth Caernarfon

rhowch bleidlais i

**Hywel
WILLIAMS**

gwasanaeth i bawb yn lleol -
llais cryf yn Llundain



Hywel Williams

Cyhoeddwyd gan Walis George, 8 Stryd y Castell, Caernarfon
ar gyfer Hywel Williams, 15 Rhes Segonithm, Caernarfon



Twristiaeth ac Iaith Niwed i'r Gymraeg

Mae astudiaeth ddiweddar gan Adran Uwchfrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru yn dangos fod twristiaeth yn cael effaith niweidiol ar yr iaith Gymraeg. Cychwynnwyd ar y gwaith yn Ionawr 1999 a chyhoeddwyd y canlyniadau ddiwedd Ebrill a'u cyflwyno mewn cynhadledd undydd yn Aberystwyth ar Dwristiaeth a Iaith. Awduron y gyfrol swmpus ddwyieithog yw'r Dr Dylan Phillips a Catrin Thomas (o Lanrug).

Canolbwyntiwyd ar dair ardal yng ngogledd-orllewin Cymru, sef Llanfair Mathafarn Eithaf (Benllech); Llanengan (Abersoch) a Llanberis, a noddwyd y gwaith maes gan Gronfa yr Undeb Ewropeaidd, Prifysgol Cymru, Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn a Bwrdd Croeso Cymru.

Yn wahanol i bob un o gyfrolau cynharach yr Adran, sy'n astudio'r Gymraeg yn hanesyddol a chymdeithasol, y tro hwn teimlwyd yr angen i gynnig argymhellion ar ddiwedd y gyfrol. Mae'r argymhellion rheini yn galw ar i'r Cynulliad Cenedlaethol a'r awdurdodau lleol yng Nghymru i lunio strategaeth arbennig fydd, nid yn unig yn creu gwaith digonol i ateb gofynion y gweithlu lleol, ond ar yr un pryd yn gwarchod a diogelu cymunedau Cymraeg.

Mae'r ystadegau yn yr adroddiad hwn yn dangos yn eglur pa mor niweidiol yw effeithiau twristiaeth ar yr iaith Gymraeg, ond yn dangos hefyd, fod y cymunedau rheini yn ddibynnol i raddau helaeth iawn ar yr union beth sy'n lladd eu Cymreigrwydd.

Dim Cynrychiolydd o'r Bwrdd Croeso

Roedd hi'n arwyddocaol iawn nad oedd unrhyw gynrychiolydd o Fwrdd Croeso Cymru yn bresennol yn y gynhadledd i wrando ar ddarlithoedd yn ymwneud â thwristiaeth yng ngwledydd yr Alban, Iwerddon a Ffrainc, yn ogystal â Chymru. Roedd hi'n amlwg fod Cymru ymhell ar ôl ein chwirydd Celtaidd ym maes twristiaeth diwylliannol. Mae'r Alban ac Iwerddon yn targedu gwyliau Celtaidd yn America, er enghraifft, er mwyn denu ymwelwyr â chysylltiadau teuluol yn ôl i'w henwlad.

Mae'n arwyddocaol fod mwy o bobl yn siarad y Gaeltacht yn America nac yn Iwerddon. Mae Strategaeth Dwristiaeth y Gaeltacht wedi targedu'r farchnad hon a'u denu i Iwerddon ar wyliau dysgu iaith. O ganlyniad, trigolion lleol sy'n medru'r iaith sy'n elwa o'r

ymwelwyr hyn yn hytrach na gwestai sy'n eiddo i gwmnïau rhyngwadol. Rhoddir yr ymwelwyr i letya gyda siaradwyr Gaeltacht, a'r rheini yn cael eu talu, ar yr amod eu bod yn siarad Gaeltacht gyda'u hymwelwyr. Mae'r math hwn o dargedu yn digwydd yn yr Alban hefyd. Ond yma yng Nghymru...? A doedd neb o'r Bwrdd Croeso yn bresennol i wrando ar y syniadau hyn.

Sefyllfa Llanberis

Yng nghymuned Llanberis (a chanrannau Llanberis a ddefnyddir yng ngweddill yr erthygl) roedd bron i 30% o'r rhai a holwyd ag aelodau o'u teulu yn gweithio ym maes twristiaeth. Mae hyn yn dangos mor ddibynnol yw llawer o bobl yr ardal ar dwristiaeth am eu bywoliaeth. Ond yn fwy arwyddocaol, roedd 46% o'r bobl hyn yn gwneud gwaith tymhorol yn unig. Dengys hyn, unwaith eto, nad cynhaliath gydol y flwyddyn a geir i lawer ym maes twristiaeth.

Dangosir gan yr astudiaeth fod mewnffudo yn digwydd yn sgil twristiaeth, a hwnnw yn ei dro yn arwain at Seisnigo ardal. O'r rhai a symudodd i fyw i Lanberis, roedd 35% yn dweud iddynt wneud hynny oherwydd iddynt fod yma ar wyliau. Honnai 42% iddynt symud yma oherwydd fod prisiau tai yn is, ac yr oedd 25% yn dweud eu bod wedi prynu tŷ haf yn yr ardal, nid yn unig i dreulio gwyliau ynddo, ond gyda'r bwriad o ymddeol iddo maes o law. Hynny yw, mae chwarter y bobl sydd wedi prynu tai haf yn yr ardal yn bwriadu byw yma ar ôl ymddeol - a Saesneg fydd iaith y bobl hynny.

Y Gymraeg dan fygythiad?

Yn ôl yr arolwg, mae 68% o gartrefi Llanberis â'r Gymraeg yn iaith yr aelwyd. Mae hynny yn eithaf calonnogol, oherwydd os oes cymaint o aelwydydd â'r Gymraeg yn cael blaenoriaeth arnynt, yna mae gobaith i'r genhedlaeth nesaf o Gymry Cymraeg. Yn wir, roedd 73% o'r siaradwyr di-Gymraeg a holwyd wedi ystyried dysgu'r iaith neu wedi rhoi cynnig ar ei dysgu. Eto'i gyd, roedd 83% o'r rhai a geisiodd ddysgu'r Gymraeg yn dweud mai eu rheswm dros beidio oedd fod pawb yn medru'r Saesneg. Hynny yw, roedd yr iaith ryngwladol yn lladd yr iaith frodorol.

Agwedd y mewnffudwyr

Roedd 20% o'r rhai a holwyd yn ddigon gonest i ddweud nad oedd ganddynt unrhyw ddiddordeb o gwbl yn y Gymraeg. Mae'r canran hwn yn

cynrychioli un rhan o bump o boblogaeth y gymuned: pobl nad yw'r Gymraeg yn golygu dim oll iddynt. Nid yw'r astudiaeth yn dosbarthu'r grŵp hwn, ond gallai'r rhain fod yn rhieni (a beth fydd agwedd eu plant yn yr ysgolion lleol?), yn bobl fusnes (pa obaith trafod yn Gymraeg â hwy?) neu'n swyddogion ym maes twristiaeth (a sut ddelwedd o Lanberis a adlewyrchir ganddynt?).

Ym maes addysg hefyd, roedd y mwyafrif llethol (90%) yn berffaith fodlon ar addysg eu plant, ond o'r 10% oedd yn anfodlon, roedd y cwbl yn honni fod gormod o Gymraeg yn yr ysgolion lleol. A chafwyd sylwadau ymyl y ddalen gan amryw i gadarnhau'r agwedd wrth-Gymreig hon. Dyma un enghraifft: *'Too much Welsh doesn't help Welsh children with their English'* ac meddai un arall: *'they are behind my other grandchildren in reading and writing because of having to do it in two languages.'* Doedd y fantais o gael dwy iaith yn hytrach nac un iaith y wyron eraill ddim yn amlwg i'r atebwr.

Y Gymraeg a thwristiaeth

Yn hanesyddol, mae Llanberis yn un o ganolfannau twristiaid hynaf Cymru, a'r trigolion lleol dros y canrifoedd wedi ymdopi â'r 'gwenoliaid' dros dymor yr haf. Bellach, mae twristiaeth yn ymestyn i fisoedd y gaeaf yn yr ardal fel y daw dringo a mynydda yn fwyfwy poblogaidd, a'r dulliau o deithio i'r ardal yn gyflymach a mwy hwylus.

Oherwydd fod Llanberis felly wedi dygymod â thwristiaeth ers cymaint o flynyddoedd, nid yw'n syndod mai 21% yn unig a gredai fod twristiaeth yn niweidiol i'r Gymraeg, a bod 48% yn credu fod angen datblygu rhagor ar y raddfa bresennol o dwristiaeth. Ond roedd y raddfa o dwristiaeth i'w datblygu yn dangos fod pryder yn bodoli ynglŷn â rhai mathau o atyniadau a chyfleusterau. Credai 57% y byddai sefydlu pentref gwyliau (fel yr argymhellwyd nifer o flynyddoedd yn ôl ar safle Glyn Rhonwy) yn niweidiol iawn i'r iaith Gymraeg. Credai 51% y byddai sefydlu maes carafannau yn niweidiol hefyd. Y mathau o dwristiaeth a ystyrir yn fwyaf llesol i'r iaith oedd twristiaeth addysgiadol (56%) a thwristiaeth ddiwylliannol (51%).

Yr hyn sy'n arwyddocaol yw fod 84% yn credu fod angen gwneud llawer mwy o ddefnydd o'r Gymraeg ym maes twristiaeth. Efallai fod angen i Gonsortium Busnes Llanberis gymryd sylw o'r canran diwethaf hwn, oherwydd

'croeso' yw'r unig air o Gymraeg a ddefnyddir ganddynt yn y daflen ddiweddaraf i hysbysebu'r pentref a'i atyniadau. Yn wir, gallai'r daflen ei ddefnyddio i hysbysebu unrhyw bentref gwyliau mynyddig mewn unrhyw ran o Brydain gan nad oes crybwyll unrhyw agwedd Gymraeg na Chymreig ynddi. Sonir am 'Snowdon' yn hytrach na'r Wyddfa hyd yn oed.

Byddai o fudd i bob aelod o'r Consortium ddarlenn yr argymhellion ar dudalen 86 (ydi, mae'n Saesneg hefyd ar union yr un dudalen) ynglŷn â marchnata diwylliannol.

Diweddglô

Mae'r adroddiad yn rhoi gwêdd newydd ar yr holl sylw a roddwyd yn ddiweddar i sylwadau'r Cynghorydd Simon Glyn ynglŷn â mewnffudo a'r iaith, a dylai pob aelod o'r awdurdodau lleol ddarlenn yr argymhellion, a gweithredu arnynt hyd eithaf ei g/allu os yw'r Gymraeg i ddal ei thir yn yr ardaloedd twristiaid.

Yn sicr, mae gan drigolion Llanberis a'r cylch le i ddiolch nad yw'r sefyllfa cynddrwg yno ag yn y ddwy ardal arall a astudiwyd yn yr arolwg, ond mae'r arwyddion yn dangos fod dirywiad graddol yn digwydd, ac fel yn achos Benllech, pan fo'r trobwynt yn cyrraedd, anodd iawn, os nad amhosibl fydd atal cymuned rhag troi'n gwbl Seisnig ei naws. Gocheler rhag i hynny ddigwydd yn Llanberis.

Atodiad BETHEL

YMDDEOLIAD MRS HELEN SUTHERLAND. Wedi deng mlynedd ar hugain o wasanaeth ymroddedig, bydd Mrs Helen Sutherland yn ymddeol o'i swydd fel athrawes fabanod yn Ysgol Bethel ym mis Gorffennaf eleni.

Mae Mrs Sutherland (neu 'Miss Tomos' i'r plant) yn athrawes o'r radd flaenaf a bydd y bwch a adewir ar ei hôl yn un anodd iawn i'w lenwi. Rydym yn sicr bod gan ei disgyblion a'i chyn-ddisgyblion atgofion melys iawn o'r cyfnod a dreuliasant yn ei dosbarth.

Mae tysteb wedi ei hagar yn yr ysgol ar gyfer anrhegu Mrs Sutherland a bydd yr athrawesau a'r ysgrifenyddes yn barod i dderbyn unrhyw gyfraniadau.

Hoffem hefyd estyn gwahoddiad i chi rieni, cyn-rieni, cyn-ddisgyblion, cyn-gydweithwyr a ffrindiau i ymuno â ni mewn noson arbennig i ffarwelio â Mrs Sutherland yng Ngwesty'r Meifod, Bontnewydd, ar nos Wener, Gorffennaf 13. Bydd lluniaeth ar ffurf bwffe a cherddoriaeth fyw. Trefnir bws i adael am 7.30 yh oddi wrth yr ysgol ym Methel. Bydd tocynnau ar werth yn yr ysgol am £10. Am fanylion pellach cysylltwch â'r ysgol erbyn Mehefin 29.

Ymddeoliad Clerc y Cyngor

Cyfarfod Arbennig yn Y Bistro, Llanberis

Nos Wener, Mai 18, 2001

Cynhaliwyd cyfarfod i werthfawrogi gwasanaeth y Clerc, Selwyn Griffith, a oedd yn ymddeol ar ôl 46 mlynedd o wasanaeth fel Clerc i Gyngor Cymuned Llanddeiniolen. Gwahoddwyd aelodau'r Cyngor a'u partneriaid i'r cinio.

Y prif westai oedd Mr Ellis Jordan, Llanfairfechan; yn addas iawn gan mai ef oedd Cadeirydd y Cyngor Plwy pan apwyntiwyd y Clerc mor bell yn ôl â 1955. Cafwyd anerchiad gan Mr Jordan, pryd y soniodd am y cyfarfodydd cynnar yn yr hen Gynghorfa o dan y lampau olew a'r tamprwydd yn llifo i lawr y parwydydd.

Cafwyd anerchiad gan Glyn Tomos ac fe soniodd yn arbennig am gysylltiad y Clerc â'i ddiweddar dad, Hugh Thomas, a fu'n cynrychioli Dinorwig ar y Cyngor am flynyddoedd. Roedd Hugh Thomas yn aelod pan apwyntiwyd y clerck yn 1955. Bu Glyn Tomos hefyd yn aelod ffyddlon o'r Cyngor dros Ddinorwig am flynyddoedd.

Fe gynhyrfodd yr awen y ddau Gynghorydd dros ward Bethel a chafwyd cyfarchion addas a diddorol ar y mesurau caeth a rhydd gan Richard Lloyd Jones a Dafydd Williams.

Soniodd Huw Jones, ffrind i'r clerck, am eu cyfeillgarwch dros y blynyddoedd o ddyddiau'r Cownti sgŵl yng Nghaernarfon hyd heddiw. Roedd y ddau yn chwarae i dîm pêl-droed yr ysgol ac maent yn dal i fynd i nofio gyda'i gilydd yn weddol rheolaidd.

Cafwyd gair o ddiolch gan y Clerc: i Miss Phyllis Ellis y cyn-Gadeirydd am wneud y trefniadau ac i'r Cynghorydd Len Jones am lywyddu gweithgarwch y noson.

Rhoddodd y Clerc fraslun o'i atgofion o ddyddiau reidio beic

i gyfarfodydd y Cyngor yn y Gynghorfa hyd heddiw, gan nodi mai tasg anodd oedd ceisio crynhoi bron i hanner canrif i bum munud o anerchiad. Rhaid fodd bynnag oedd dwyn i gof rai cymeriadau y cafodd y pleser o gyd-weithio â nhw dros y blynyddoedd.

Cyflwynwyd anrheg o waith y Cynghorydd Gwilym Williams i'r Clerc: cloc llechen gyda'r geiriau arno: 'Mewn gwerthfawrogiad o'i waith fel Clerc i Gyngor Cymuned Llanddeiniolen 1955 - 2001'.

Dymunodd y clerck bob llwyddiant i'w olynydd, Mr John B. Jones, Deiniolen, ac addawodd y byddai yn barod iawn i roi unrhyw gymorth iddo.



DIOLCH. Diolch yn fawr iawn i Selwyn Griffith am anfon adroddiadau o Gyngor Llanddeiniolen i'r Eco yn gyson ar hyd y blynyddoedd. Mae wedi bod yn wasanaeth gwerthfawr i'r etholwyr ac o fudd i'r Eco. Gobeithio y daw'r adroddiadau eto. - Golygyddion.

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat - nosweithiau allan, partïon, tripiâu ac ati.

Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan

(01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS



Yn Nhŷ Mawr ac ym Meran, - yn y Bull

A'r Gors Bach, i Garfan
I Reuor cofiwn rŵan
Y mil cymwynasau mân.

I Riwlas, i Bentre Helen, - o'r Gors
A Thre' Go hyd Riwen,
A Chae Hob, hyd y Fachwen,
Ein diolch, gymrawd awen.

A'r awel o Foel Rhiwen - yn oer
braidd,

Mor braf fu cael derwen
A'i thŵ ir dros ein hiaith hen,
A'i hawliau'n Llanddeiniolen.

Ni lwydda i ymddeol heddiw, - tra
sôn

Am estron ac ystryw,
Gŵr parod i warchod yw
A cheidwad y Bwlch ydyw.

Dafydd Williams

O arddel swydd ag urddas - o blaid
Ei blwy, a'i chymdeithas,
Erys glanwaith gwaith y gwas,
Ei gamp yw'r fro o gwmpas.

Richard Lloyd Jones

Llythyrâu

1 Tan y Ffordd
Bethel

Annwyl Olygydd,
*Chwilio am Hanes Drwy
Gyfrwng Darlunia' a Ballu:
Pentra Bethel, Arfon*

'R ydw'i'n chwilio am hen ddarluniau a ffotograffau sy'n cynnwys siopau a masnachdai ym mhentra Bethel, Arfon ers llawr dydd. A oes gan rhai o'n darllenwyr lunia', neu'n well byth atgofion, am fanau neilltuol yn y pentra, sy' bellach heb fod yn bodoli ran eu bodolaeth masnachol, - er enghraifft, gweithdai'r crydd a'r teiliwr, gwerthwr llyfra', masnachwr hada', siop y cigydd, a.y.y.b.

Fel arfar yn ddiolchgar am eich cymorth rhadlon, a'ch cwmni hael.

Dafydd Guto

Straeon Caru y Mileniwm Newydd

Hanesion carwriaethol Cymry heddiw. O'r asiantaethau i'r hysbysebion yn y papurau newydd i'r rhyngwyrdd - bydd ail gyfres 'From Wales with Love' (HTV Cymru/Wales) yn edrych ar straeon newydd, cymeriadau newydd a ffyrdd newydd o gael hyd i bartner heddiw.

Yn dilyn llwyddiant y gyfres gyntaf, rydym yn chwilio am gyfranwyr gyda hanesion rhamantus difyr. Ydych chi'n gwybod am unrhyw un sydd wedi gorfod 'elopio'? A oes gennych chi stori garu tra oeddech chi ar wyliau neu'n teithio dramor? Ydych chi'n gwybod am unrhyw un sy'n chwilio am bartner heddiw yng nghefn gwlad Cymru? Os oes a chithau â diddordeb mewn cymryd rhan yn y gyfres, cysylltwch â:

Sioned Llewelyn Williams.

Cwmni Da

(01286) 685300



CARPEDI GERAINT OWEN

GWERTHWYR CARPEDI, TEILS CARPED A FEINYL
CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC

FFONIWCN UNRHYW AMSER:

WAUNFAWR (01286) 650552



Cymdeithas Y Plant (The Children's Society) Ymwelwyr annibynnol

Oes gennych ddiddordeb mewn gwneud gwaith gwirfoddol gyda phlant a phobl ifanc?
Mae Cymdeithas y Plant yn chwilio am wirfoddolwyr dwyieithog i weithio fel Ymwelwyr Annibynnol gyda plant a pobl ifanc mewn gofal yng Ngwynedd ac Ynys Môn.
Byddwn yn cynnwys asesiad gofalus ac hyfforddiant sy'n arwain at gymhwyster, goruchwyliaeth a chefnogaeth.
Os oes gennych ddiddordeb:

Cysylltwch a ni yma ar 0800 085 2274

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

CAFFI 'BWYTY ERYRI'
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau

Priodas, Bedydd

Pen-blwydd ac ati

Peis, Rholiau Sosej

Pasteiod, Teisennau Hufen

Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

Grwpiau lleol yn rhyddhau C.D.'s

Pedair Stori Fer

Ar y degfed ar hugain o Ebrill, rhyddhaodd y grŵp roc lleol *Vanta* eu cryno ddisg gyntaf – *Pedair Stori Fer e.p.* – ar label RASP, sef is-label cwmni recordiau Fflach.

Ffurfiwyd y band bron i dair blynedd yn ôl, pan oedd yr aelodau yn ddisgyblion chweched dosbarth yn Ysgol Brynrefail. Daw'r canwr, Meilyr Emrys o Fethel, tra y daw'r gitarydd blaen, Steven Williams o gyffiniau Caeathro. O gyrion Llanrug y daw'r chwaraewr bâs, Martin Howarth a'r drymiwr, Gerallt Hughes.

Erbyn hyn mae'r pedwar yn fyfyrwyr mewn gwahanol golegau – Meilyr a Gerallt yn Aberystwyth, Steven ym Mangor a Martin yn Nhelford. Er hyn mae'r band wedi llwyddo i barhau i chwarae'n fyw a recordio gan ennyn cryn ddilyniant yn y 'coleg ger y lli', a derbyn tipyn o ganmoliaeth am eu gwaith. Disgrifiodd Ian Cottrell, o'r rhaglenni teledu 4-trac a *Bandit*, berfformiadau *Vanta* mewn gwyliau fel Sesiwn Fawr Dolgellau a Gŵyl Pen Draw'r Byd yr haf diwethaf fel 'Gwych,' ac mae'r e.p. newydd wedi cael derbyniad gwresog gan gyflwynwyr Radio Cymru.

Recordiwyd yr e.p. yn Stiwdio Pandy, Pentraeth dros y Nadolig a'r flwyddyn newydd. Mae'n cynnwys pedair cân Gymraeg wreiddiol, sef 'Pen y Byd', 'Tyll Diwaelod (Achub Fi)', 'Oer' a 'Carreg'.

Mae'r band newydd recordio sesiwn acwstig i raglen radio *Gang Bangor* a fideo i raglen *Bandit*, sydd i'w gweld ar S4C Digidol i hyrwyddo'r e.p. Lanswyd y gryno ddisg yn swyddogol gyda gig yn yr *Harpoon* yng Nghaernarfon ar nos Fercher, Ebrill 25



CABAN

Yn ddiweddar rhyddhawyd C.D. o'r enw D.I.Y. gan y grŵp Caban.

Ychydig dros flwyddyn yn ôl daeth tri brawd, Gwyn, Ifor a Derfel gyda Brian a Dylan at ei gilydd i ffurfio Caban yn ei ffurf bresenol. Dywed yr hogia iddynt ddewis CABAN fel enw gan mai mewn Caban y deuai hogia'r Chwael at ei gilydd. Recordiodd y grŵp y gerddoriaeth eu hunain ar ôl

buddsoddi mewn offer drud digidol. 'Cymrodd flynyddoedd i safio, ond bu'n werth yr arian. Roedd yn braf a chyfleus codi'n bora a gneud y cwblwl ein hunain,' meddai Gwyn.

Mae 5 cân Saesneg a 9 cân Gymraeg ar yr albwm a'r hogia eu hunain yw awduron y mwyafrif ohonynt. Mae Dilys Bayliss o Lanberis hefyd yn cyfieithu ei chaneuon hi ar gyfer y grŵp. Er ei bod yn 89 oed mae Dilys wedi gwirioni hefo'r grŵp (wel, mae'n perthyn i 3

ohonynt!)

Mae'r grŵp wedi ymddangos droeon mewn gwahanol gigs a gwyliau dros y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys Bro Conwy, Llanelli, Cae yn Nefyn, Car Gwylt, Ras y Wyddfa, Plant mewn Angen a Theithiau Ysgol Radio Cymru. Mae eu cerddoriaeth wedi cael ei chwarae yn aml ar Radio Cymru a Champion FM.

Mae'r record yn wych ac fe ddymunwn bob llwyddiant iddynt i'r dyfodol.

VANTA



LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390

YSGOL DOLBADARN:

FFARWELIO. Ar ddiwedd y tymor diwethaf roedd hi'n amser ffarwelio hefo Mr Owain Gwilym ar ôl pedair blynedd o wasanaeth i Ysgol Dolbadarn. Erbyn hyn mae Mr Gwilym wedi cychwyn ar ei swydd newydd yn Ysgol y Graig, Llangefni. Fe gyflwynwyd anrheg i Mr Gwilym fel arwydd o wethfawrogiad o'i waith caled. Roeddym wedi comisiynu Heather Lowe i wneud llun o'r olygfa tua'r Wyddfa ac roedd Mr Gwilym wedi ei blesio'n arw iawn. Pob llwyddiant iddo yn ei swydd newydd.

Dydd Gwener, Mai 4 roeddym yn ffarwelio hefo Anti Andrea sydd wedi bod yn gofalu am y plant dros yr amser cinio ers saith mlynedd. Diolch yn fawr Andrea, a phob lwc i'r dyfodol.

CROESO cynnes i Mrs Iona Ceiriog sydd wedi setlo'n dda yn yr ysgol ac yn mwynhau ei hun yn ein plith!

TRWYNAU COCH. Casglwyd cyfanswm o £300 tuag at Comic Relief. Diolch i'r plant a'r staff am wisgo eu dillad nos ac am brynu teisennau a siocled poeth yn y caff.

MYFYRWYR. Bydd Miss Llinos Williams a Miss Ceri Jones, dwy fyfyrwraig o'r Ysgol Addysg ym Mangor yn dod atom y tymor hwn i weithio hefo dosbarth Miss Bethan Owen a Mrs Meirwen Williams.

GRANTIAU. Gan i ni fod yn llwyddiannus yn ein cais am grant o Gronfa'r Loteri dan y cynllun Celfyddyd i Bawb, (Cyngor Celfyddydau Cymru), fe fydd Heather Lowe yn dod yn ôl i weithio gyda disgyblion yr ysgol y tymor hwn eto. Bydd yn gweithio gyda disgyblion Blwyddyn 2 yn ystod yr ddamher cyntaf.

Rydym hefyd wedi derbyn grant gan yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol i gynnal gweithgareddau ysgrifennu penodol gyda disgyblion Blwyddyn 4 a 5.

CÔR MEIBION DYFFRYN PERIS Mae'r Côr yn gobeithio y bydd eu 'Cryno-ddisg/Tâp cyntaf ar werth o ddechrau Mehefin ymlaen. Sefydlwyd y côr ym 1990 ac mae edrych ymlaen garw am ei chlywed.

Y mae amrywiaeth o ganeuon arni - 15 i gyd - ac mae y dewis o eiddo yr arweinyddes dalentog a diflino, Mair Huws. Dyn â dawn gerddorol arbennig ganddo yw'r cynhyrchydd, Mr Emyr Rees, a bu cyd-weithio hapus rhwng Mair, Hefina, Emyr a'r côr yn Stiwdio Sain, Llandwrog.

Gobeithiwn y gwnewch fwynhau'r gwranddo a diolch am eich cefnogaeth. Cynlluniwyd y clawr gan Emerson Hughes, gyda chyfraniad gan Arwel Jones.

UNDEB Y MAMAU. Pnawn dydd Mawrth, Mai 1 cyfarfu aelodau Undeb y Mamau yn Nhŷ Sant Padarn.

Ein gwraig wadd oedd y Parch Ann Smithian o'r Felinheli a hi gymerodd y Gweddïau agoriadol. Dangosodd sleidiau o'i hymwelid ag Uganda, a rhyfeddol oedd sylwi mor weithgar oedd yr Ugandiaid yn adeiladu eglwysi, ysgolion, tai a.y.y.b. Yr oedd yn amlwg fod gwaith Undeb y Mamau yn flaenllaw iawn yn eu bywydau a'r aelodau yn edrych yn urddasol iawn yn eu gwisgoedd swyddogol. Dangoswyd sawl peth oedd y Parch Ann wedi ddod adref hefo hi a mwynhau y phawn yn fawr.

Mrs Betty Humphreys oedd yn ymorol am y baned a diolchwyd iddi hi a'r Parch Ann gan Mrs Audrey Evans.

Trafodwyd ambell eitem fusnes gan gynnwys y Gwansanaeth Arbennig sydd i'w gynnal yn Nyffryn Ogwen nos Fawrth, 15 Mai. Enillydd y raffl oedd Mrs Nellie Morris. Diweddiwyd drwy adrodd y Gras.

PLAS PENGWAITH. Yn yr Ysbyty ar hyn o bryd mae Mrs D. Griffiths, a Mr A. Williams ac rydym yn dymuno gwellhad buan iddynt. Yn anffodus roedd Mrs D. Griffiths yn yr Ysbyty pan oedd yn dathlu ei phen-blwydd yn 90 oed, felly ni chafwyd parti iddi yn y Cartref ond mae pawb wedi anfon neges o longyfarchiadau iddi.

Wedi dod i aros atom am gyfnod mae Mrs L. Owen, Llanrug; Mrs C. Owen, Llanrug a Mrs A. Thomas, Deiniolen. Dymunwn groeso cynnes iddynt atom. Wedi mynd gartref yn ôl i'r Groeslon mae Mr a Mrs T. Parry.


Carnifal Llanberis

Oherwydd yr argyfwng Traed a'r Genau cafwyd cyfarfod gyda Pharc Gwledig Padarn a'r ffermwr Alan Roberts, Fron Oleu i drafod sefyllfa Cae'r Ddôl a'r gobaith o'i ddefnydd ar gyfer Carnifal. Wedi i'r Parc wneud Asesiad Risg ar y cae gyda chydweithrediad Alan Roberts, pasiwyd fod y cae yn addas. Felly mae'r Pwyllgor yn cadarnhau fod Carnifal Llanberis i'w gynnal ar 21

Gorffennaf, 2001.

Fel arfer rydym yn erfyn am eich cefnogaeth, gan obeithio y cawn Garnifal llwyddiannus eto eleni. Unwaith eto caredd ddiolch i Gyngor Gwynedd, Parc Gwledig Padarn ac Alan Roberts am eu cydweithrediad.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â'r Ysgrifennydd: Alan Tudor Jones (01286) 871424.



Brenhines y Carnifal; Nicola Dawn Hughes (canol)
Morynion y Llys: Heledd Mair Thomas a Scarlett O'Donnell.

Dymunwn bob lwc iddynt i'r dyfodol.

Bydd Mr T.E. Williams a Mrs M. Williams yn dathlu eu pen-blwyddi ym mis Mehefin. Dymunwn ben-blwydd hapus iawn iddynt.

Cafwyd y Bws Mini yma fis Mai eto am yr wythnos a chafwyd mynd allan am dro rai o'r dyddiau.

Ar Fai 22 cafwyd Sioe Ddillad eto yn y Cartref.

LLONGYFARCHIADAU i Nia Wyn Roberts, Ty'n Llwyn, 22 Stryd Goodman ar ennill gradd M.Sc (Econ) mewn Llyfrgellyddiaeth a Chyfathrebu ym Mhrifysgol Cymru Aberystwyth. Pob lwc iddi yn ei gyrfa yn Ysbyty John Ratcliff, Rhydychen.

DIOLCH. Dymuna Mrs Millie Pritchard ddiolch o waelod calon i'w chymdogion a'i chyfeillion yn Llanberis am eu cefnogaeth a'u cynhaliaeth pan oedd arni angen cymorth a chydymdeimlad. Bendith Duw fo arnoch.

COFION PEN-BLWYDD Gruffydd Edward Roberts fuasai

yn 74 mlwydd oed ar Fai 9.

Mewn cof ac mewn calon mae hiraeth o hyd.

Ei wraig Rhiannon a Trefor a Gareth

57 Dôl Elidir, Llanberis.

DIOLCH. Dymuna Judith a Nigel ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, arian ac anrhegion a dderbyniodd Daniel ar achlysur ei ben-blwydd yn bump oed.

DIOLCHIADAU. Dymuna Selyf, Tan Dderwen ddiolch yn fawr iawn i'w deulu, cymdogion a ffrindiau oll am eu cefnogaeth a phob dymuniad da tra bu dan lawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

DIOLCH. Dymuna Tecwyn Roberts, 12 Castle View ddiolch yn fawr iawn i'w deulu, cymdogion a ffrindiau oll am eu cefnogaeth a phob dymuniad da tra bu yn Ysbyty Gwynedd ac ar ei ddychweliad adref.

Cefnogwch ein hysbysebwr

Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff



Harddwch eich cartref gyda

**FFENESTRI
CELTIC** WINDOWS

**FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL**

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch - 'dio'n costio dim i gael pris

**HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG**



(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)



Newyddion Ysgol Brynrefail

Mynd Ati i Ddarllen

Fel rhan o'r ymgyrch i geisio annog disgyblion i ddarllen, ac yn enwedig yr hogiau, ymwelodd pedwar actor ag Ysgol Brynrefail fis diwethaf. Bu'r pedwar yn darllen pytau o lyfrau Cymraeg a Saesneg a gyhoeddwyd ar gyfer yr arddegau'n benodol. 'Blasus' yw'r gair gorau i ddisgrifio'r pytau a ddarllenwyd ac roedd eu dadansoddiad hwy o'r cymeriadau drwy ystum corff, acen a symudiadau'n ychwanegu'n fawr at y

perfformiad ac at fwynhad y disgyblion a'r athrawon fel ei gilydd.

Yn sicr llwyddwyd i roi blas ar y nofelau ac roedd y ffaith fod y darllen yn stopio mewn rhan ddifyr yn fodd o ennyn chwillfrydedd y disgyblion ac o bosib eu sbarduno i chwilio am y llyfr yn y llyfrgell a'i ddarllen yn ei gyfanrwydd.

Prynhawn pleserus, addysgiadol a'r mwynhad yn amlwg ar wynebau'r disgyblion.



Rhai o ddisgyblion Bl.8 gyda Mair Tomos Ifans, Carys Gwilym, Iwan (Iwcs) Roberts, Llyr Ifans.

Trip i Ffrainc



Caredigrwydd Emma

Fel y gwyddoch mae'r ysgol yn hel tocyns 'Free Books for School' ac yn ddiweddar fe gawsom hwb fawr gyda'r ymgyrch.

Cafodd Emma, chwaer bach Ben Roberts, Bl.10 nifer fawr o docyns wedi apêl ym mhapur newydd 'The Sun'.

Penderfynodd rannu rhain rhwng tair ysgol, sef Maesincla (ysgol Emma), Ysgol Brynrefail (ysgol Ben) ac Ysgol Syr Hugh Owen (ysgol Nic).

Diolch o galon Emma am dy ymdrech yn hel dros 100,000 tocyn ac am fod mor garedig a rhoi 15,000 i Ysgol Brynrefail.

Derbyniodd Emma dystysgrif o ddiolch gan y Prifathro, Mr Eifion Jones ac mae'n amlwg fod hyn wedi plesio'n arw yn ôl y wên ar wyneb pawb.



Emma (Maesincla), Ben (Ysgol Brynrefail), Nic (Ysgol Syr Hugh Owen) hefo'r Prifathro, Eifion Jones.

Ebrill 4, 2001 cychwynnodd 34 o ddisgyblion Ysgol Brynrefail ar daith hir i Normandi yn Ffrainc. Ar ôl wyth awr ar y bws cyrrhaedd Portsmouth. Roedd y daith ar y cwch yn eithaf hir ond roedd digon o bethau i'n diddori. Ar ôl cyrraedd Ffrainc y prif beth wnes i fwynhau oedd y 'sand yachting'. Roedd y gwynt yn gryf iawn a chwythodd Chantel i mewn i'r dŵr!

Mwynhaodd pawb yr ymweliad ac yn sicr mi fyddwn yn ymweld â Ffrainc eto. Diolch yn fawr i'r athrawon a fu yn gyfrifol am ein gwarchod ar y trip, sef Madame Gartau, Mrs Rhian Ellis Owen, Mrs Megan Davies a Mr Dylan Parri.

Stephanie Louise Welsby

GWASANAETH LLEOL AR GYFER

PARTÏON • PRIODASAU • PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU ...

**RHOSTIO
MOCHYN**



AR GYFER POB ACHLYSUR

* Cig o ffermydd lleol * Partïon rhwng 40 a 400!

* Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau

* Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!

Cysylltwch â

JOHN BRYNAFON, LLANRUG

Y DYN CIG ar 675190 / 673188

SNOWDONIA PARC

WAUNFAWR

• Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant
• Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol
• Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go iawn

Ffôn: 650218

Trip i weld Tapestri Bayeux oedd ar yr agenda y diwrnod cyntaf ac roedd yn dod a'n gwersi Hanes yn fyw i ni.

Y diwrnod canlynol mynd i'r porthladd yn Trouville a chael mynd ar gwch bach i weld y golygfeydd hyfryd ar lan y môr cyn mynd i grwydro'r siopau a'r marchnadoedd pysgod.

Tra gwahanol oedd yr ymweliad â Centre de Loisirs Nautiques yn Asnelles yn 'hwylio tywod' ac ambell un yn cael codwm fythgofiadwy.

Wedi cyrraedd Paris, mynd i weld y golygfeydd enwog a chael taith i lawr yr Afon Seine. Wel sôn am fod wedi blino.

Yna wrth gwrs, Disneyland, a ras am y reid *Space Mountain*. Disgwyl am hir yn y ciw ond roedd yn werth bob munud.

Pawb yn mynd adre wedi ymlâdd ond wedi mwynhau pob eiliad. Dyna beth oedd trip bythgofiadwy.

Diolch athrawon!

Manon Glyn 9N, Ceri Jones 9i,
Laura Beard 90, Ruth Edge 90
a Ceri Meredydd 9N

Cael amser 'brill' yn Ffrainc. Trip cofiadwy a phawb yn cael hwyl ac er bod y daith yn hir roedd yn werth mynd.

Ein hoff le oedd Disneyland, sef y trip olaf a mwynhau gweld a theimlo bwrlwm y parêd. Gweld cymeriadau fel Winnie the Pooh, Mickey a Minnie Mouse yn rhoi cyffro mawr i ni.

Roedd y nosweithiau yn y 'Chateau du Molay' yn wych oherwydd roedd y staff cyfeillgar wedi trefnu gwahanol adloniant i ni.

Rydan ni'n ddiolchgar iawn i'r athrawon am eu gofal ac am roi i fyny hefo ni trwy'r wythnos. Diolch.

Lyndsey a Iola 9N

Cefais amser bythgofiadwy ym Mharis ac yn Disneyland.

Gwenan Williams 9N

Trip grêt gyda digon i'w wneud ac i'w weld a chael hwyl gyda'r 'rep' David a oedd yn helpu i'n diddori yn y Chateau. Disneyland, wrth gwrs, yn wych ac ar ôl siwrnai hir roedd pawb yn cysgu'n sownd ar y bws ar y ffordd adref.

Martin Roberts 90

Y darn gorau o'r gwyliau wnaethom fwynhau oedd Euro Disney. Aethom ar reid *Indiana Jones*. Roedd y siopau yn rhad iawn a'r bwyd yn wahanol ond yn flasus.

Roedd Paris yn lle diddorol ac roedd golygfa hardd yno.

Elen Foulkes a Rhian Jones 90

Dyda ni erioed wedi bod ar drip ysgol cystal a hyn, yn enwedig Disneyland a chael mynd ar y reid *Space Mountain*, ond erbyn y diwedd roeddym i gyd yn flinedig a rhai wedi syrthio i gysgu ar fainc tu allan i'r castell.

Ffion a Suzanne 90

Lle bendigedig oedd y 'Chateau'. Digon i'w wneud, chwarae gemau, disgo a karaoke. Digon o hwyl a sbri.

Mathew Guy 9

Pob
Dymuniad Da
i Bawb
sy'n sefyll
arholiad eleni

Am Offer Tŷ a Gardd...

FORMAG

41A STRYD FAWR, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872501

H. E. HUGHES
A'I FEIBION

Bwthyn Gadlys
LLANBERIS

FFôn: 870444



- Gwerthwyr Glo ac
- Olew Gwres Canolog i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

Cant y Cant!

Ar ddydd Llun a dydd Iau, 14 a 17 o Fai, gwahoddwyd criw o flwyddyn 10 i greu dau dim mewn peilot ar gyfer rhaglen gwis newydd gan Gwmni Agenda o'r enw 'Cant y Cant'.

Rhannwyd y criw yn ddau dim a threuliwyd y diwrnod cyntaf yng Ngwersyll yr Urdd, Glanllyn yn bowlio deg. Yna, dydd Iau cynhaliwyd cwis

gwybodaeth cyffredinol yn Stiwdio Barcud yng Nghaernarfon.

Cafodd y disgyblion ddeuddydd difyr tu hwnt a bu iddynt fwynhau'r cystadlu. Gobeithio wir y cawn gyfle i weld eu hymdrechion ar S4C yn y dyfodol agos. Dyma'r ddau dim fu'n cystadlu.



Y Tim Melyn: Cenin Eifion, Arwel Pritchard, Bethan Pritchard, Sara Roberts, Ceirion Owen.



Y Tim Glas: Geraint Iwan, Mathew Pike, Heledd Jones, Gethin Pritchard, Ffion Williams.



STRYD FAWR
LLANBERIS

(01286) 872777
annette@peris.co.uk

- * Gwasanaeth effeithlon a chyfeillgar
 - * Gwasanaeth dwyieithog
 - * Gwyliau wedi eu teilwra i ateb anghenion yr unigolyn, teuluoedd neu grwpiau
 - * Trefniadau hedfan yn unig
 - * Penwythnosau yn theatrau Llundain
 - * Y pecyn cyflawn, h.y bws-mini o ddrws y tŷ, trefniadau hedfan, gwesty neu apartment, llogi car, ac yswriant
 - * Arbenigedd mewn trefnu teithiau tramor i gorau ac i ysgolion
 - * Bargeinion munud olaf
 - * Teithiau tramor gyda chantorion o Gymru
- Am fanylion pellach, ffoniwch **Annette** neu **Bethan**

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115

MERCHED Y WAWR. Cyfarfu'r aelodau yn Ffestri Cysegr y mis yma dan lywyddiaeth Glenys Griffith. Trist oedd gorfod cyfeirio at farwolaeth ddisymwth Martin, gŵr Margaret Eckley, a fu farw'n ddiweddar. Ar yr un pryd roedd rhaid dymuno'n dda i'r mab, Dafydd, fydd yn priodi ddechrau'r mis nesaf ac hefyd i Gwen, merch Gwyneth Jones, Llys y Gwynt, hithau'n priodi'r. Anfonwyd cofion i David, gŵr Margaret Williams sydd heb fod yn dda.

Roedd nifer o'r aelodau wedi dangos diddordeb yn y Noson Gelf a Chrefft sydd i'w chynnal yn Neuadd Rhiwlas nos Wener, Mehefin 8 ac felly bydd cyfle i arddangos gwahanol grefftiau ar y noson. Mae ychydig o docynnau ar gael am 50c yr un, felly os oes unrhyw un angen tocyn, cysylltwch â'r Llywydd.

Y gŵr gwadd oedd yr Heddwas Geraint Roberts a, thrwy gyfrwng sleidiau a sgwrs, cawsom olwg hynod o ddiddorol ar ei waith gyda Hofrennydd Heddlu Gogledd Cymgu. Mawr oedd cyfraniad y gwasanaeth, nid yn unig i ddal ac atal troseddwyd ond hefyd i achub bywydau pan ddigwydd damwain mewn ardaloedd anghysbell.

Diolchwyd yn gynnes iawn iddo ar ran y Gangen gan Eirlys Williams. Gwyneth Williams enillodd y raffl, a Jen Roberts oedd yng ngofal y baned.

Y daith ddirgel fydd yn cloi gweithgareddau'r Gangen am eleni a hynny ar nos Fercher, Mehefin 13. Pawb sy'n bwriadu mynd ar y daith i ddychwelyd eu dewis o fwyd i Eirlys W., Enid W., neu Glenys erbyn Mehefin 7.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL. I gloi y gweithgareddau am eleni

mwynhaodd yr aelodau noson allan yn ddiweddar ar ffurf taith ddirgel, gan deithio ar hyd arfordir dwyreiniol Ynys Môn a gorffen am bryd blasus iawn yng Ngwesty'r Anchorage, Four Mile Bridge. Dilchwyd i bawb am bob cefnogaeth gan y Parch Gwynfor Williams, Llywydd y Gymdeithas. Y NEUADD GOFFA. Wedi'r stori yn yr Eco fis Mai fod perygl i'r Neuadd orfod cau os na fyddai mwy yn rhoi eu hysgwydd dan y baich, daeth nifer dda iawn i'r cyfarfod cyhoeddus yn y Neuadd nos Fawrth, 8 Mai.

Yn y cyfarfod dewiswyd pwyllgor newydd gyda chynrychiolwyr o'r holl ddefnyddwyr a dewiswyd Trysorydd ac Ysgrifennydd i'r Clwb 200.

Yn ystod yr wythnosau nesaf bydd llythyr yn cael ei ddosbarthu i holl dai y pentref yn gwahodd yr ardalydd i ymuno â'r Clwb gydag unigolion yn gyfrifol am gasglu'r cyfraniadau blynhyddol o £12 ym mhob ardal.

Gobeithio y bydd nifer fawr yn ymuno i gefnogi'r neuadd ac i gael cyfle i ennill gwobrau hael bob mis.

TRIP YR YSGOL SUL. Eleni bydd trip Ysgol Sul y Cysegr yn mynd i Gulliver's World, Warrington ddydd Sadwrn, 30 Mehefin.

Dylid rhoi enwau i un o'r athrawon mor fuan ag sydd modd. PRIODAS. Ddydd Sadwrn, 19 Mai yn y Cysegr priodwyd Gwen, merch Elwyn a Gwyneth Jones, Llys Gwynt a David Pugh Jones, Llanfrothen. Gwasanaethwyd yn y briodas gan y Parchedig Gwynfor Williams gyda Mrs Sian Hughes wrth yr organ. Wedi'r gwasanaeth cafwyd gwledd yng Ngwesty'r Celt, Caernarfon. Dymuniadau

gorau i'r ddau yn eu cartref newydd yn Llanfrothen.

CYDYMDEIMLO. Wedi dymuno yn dda iddo yn rhifyn Ebrill ar ôl triniaeth ar y galon, trist ydi cyfeirio at farwolaeth Mr Martin Morgan Eckley, Gerddi. Bu farw Mr Eckley ar 2 Mai a bu'r angladd ym Methel ar 8 Mai.

Er na fu Mr Eckley yn byw ym Methel yn hir daeth yn aelod gwerthfawr o'r gymdeithas a chyfeillion yn gweld ei golli. Estynnwn bob cydymdeimlad â Mrs Eckley a'r teulu yn eu profedigaeth.

GWASANAETH ARBENNIG. Fore Sul, 27 Mai dan ofal y gweinidog, Y Parchedig Dafydd Hughes, cafwyd gwasanaeth arbennig iawn yn Y Cysegr pryd y bedyddiwyd Ellen Lois, merch Mark a Manon Bee, wyres Geraint ac Anne Elis, Cilgeran ac y derbyniwyd deg o blant yr Eglwys yn gyflawn aelodau.

YMDDEOLIAD MRS HELEN SUTHERLAND. Wedi deng mlynedd ar hugain o wasanaeth ymroddedig, bydd Mrs Helen Sutherland yn ymddeol o'i swydd

fel athrawes fabanod yn Ysgol Bethel ym mis Gorffennaf eleni.

Mae Mrs Sutherland (neu 'Miss Tomos' i'r plant) yn athrawes o'r radd flaenaf a bydd y bwch a adewir ar ei hôl yn un anodd iawn i'w lenwi. Rydym yn sicr bod gan ei disgyblion a'i chyn-ddisgyblion atgofion melyn iawn o'r cyfnod a dreuliasant yn ei dosbarth.

Mae tysteb wedi ei hagor yn yr ysgol ar gyfer anrhegu Mrs Sutherland a bydd yr athrawesau a'r ysgrifenyddes yn barod i dderbyn unrhyw gyfraniadau.

Hoffem hefyd estyn gwahoddiad i chi rieni, cyn-rieni, cyn-ddisgyblion, cyn-gydweithwyr a ffrindiau i ymuno â ni mewn noson arbennig i farwelio â Mrs Sutherland yng Ngwesty'r Meifod, Bontnewydd, ar nos Wener, Gorffennaf 13. Bydd lluniaeth ar ffurf bwffe a cherddoriaeth fyw. Trefnir bws i adael am 7.30 yh oddi wrth yr ysgol ym Methel. Bydd tocynnau ar werth yn yr ysgol am £10.

Am fanylion pellach cysylltwch â'r ysgol erbyn Mehefin 29.

Ysgol Feithrin Deiniolen CYNGERDD MAWREDDOG

Nos Wener, 13 Gorffennaf, 2001 am 7 o'r gloch
yng Nghapel Ebeneser

yn cymryd rhan:

Plant yr Ysgol Feithrin, Seindorf Ieuenctid Deiniolen, Jenny Lynne ac Arwel, Lyndsey Vaughan, Siân Gibson, Emyr a Martin, Arian, Côr Meibion Dyffryn Peris, Elfed, John Eifion

Pris £2.50; Pensiynwyr: £2.00; Plant £1.00
o'r Ysgol Feithrin neu ffonio 870034 neu 871524

Elw ar yr Ysgol Feithrin

Fframia

Gwasanaeth Fframio Lluniau
Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth
Dewis eang yn cynnwys:

IVOR STUBLEY • KEITH ANDREW
KEITH BOWEN • ROB PIERCY

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)

(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

GARTH MAELOG

PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes
a physgod.
Offer pysgota



Molchi, cribo a chlipio
cŵn a chathod
o bob math
gan arbenigwyr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840



YN YR ARDD!

WIL G. ROBERTS
Bod Gwilym, Cwm-y-glo

Ffôn: (01286) 870674

GWASANAETH PENIGAMP AM BRIS RHESYMBOL

R.M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR

PRISIAU RHESYMBOL

TAWELFA, PENISARWAUN

Ffôn: (01286) 870846

STEPHEN JONES

+ Trefnwr Angladdau
Llanberis ac Ardal yr Eco

(01286) 870 870

(01286) 872 491

(07770) 265 976

Cwmni Annibynnol Lleol
Profiadol

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

SIOP SPAR. Llongyfarchiadau mawr i 17 o aelodau staff y siop sydd wedi llwyddo i ennill Lefel 1 NVQ mewn 'Gwerthu' drwy gynllun Spar 'Dysgu Gydol Oes'. Yn asesu'r staff yr oedd Mr Dafydd Price o Goleg Glannau Dyfrdwy.

Yn absennol o'r llun mae Geraint Davies a Lisa Owen. Dymuna Meirwen Williams ddiolch i'r staff am weithio mor galed a llwyddo yn y lefel cyntaf. Mae rhai ohonynt yn mynd ymlaen i Lefel 2 y mis nesaf.

LLONGYFARCHIADAU. Dymuniadau gorau ar enedigaeth merch fach, Zara Erin, i Lona Roberts, Minffordd Terrace a Dr Ffarid Ulah. Mae'r tri ohonynt wedi mynd i Ganada am 6 mis. Pob hwyl iddynt. Bydd taid a nain, Cyril a Morfudd yn edrych ymlaen iddynt ddod adref yn ôl, ac efallai y cânt wyliau bach yno hefyd!

DIOLCHIADAU PEN-BLWYDD. Dymuna Mr Evan Williams, Bryn Gro ddiolch yn fawr i bawb am eu caredigrwydd ar achlysur ei ben-blwydd yn 80 oed yn ddiweddar.

Hefyd, fe ddymuna Mrs Katie Davies, Cilmeri, 5 Hafan Elan ddiolch yn fawr i'r teulu, Arthur a Dilys Jones, a'i ffrindiau yn Hafan Elan a'r pentref am yr holl gardiau, anrhegion a galwadau ffôn a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd arbennig.

Dymuna Linda Jones, Bryn Eden, Ffordd Glan Moelyn ddiolch o waelod calon i'r teulu, ffrindiau, pentrefwyr Llanrug a'r pentrefi cyfagos a chwsmeriaid y siop am yr holl gardiau, anrhegion, galwadau ffôn a galwadau personol mae wedi ei dderbyn ers ei chyfnod yn Ysbyty Glan Clwyd. Mae Linda yn gwella yn araf ac yn methu gwybod sut i ymateb i'r holl garedigrwydd. Diolch yn fawr iawn i bawb a brysia wella Linda.

LLONGYFARCHIADAU. Mae Huw a Lisa Owen, Gladwyn, Ffordd yr Orsaf wedi cael merch fach newydd, Alaw Mai, chwaer fach i Shannon. Llongyfarchiadau mawr i chi i gyd.

Llongyfarchiadau hefyd i Mrs Dorothy Carter (Pleming gynt) 1

Didfa ar fod yn llwyddiannus mewn arholiad Cymorth Cyntaf o dan ofal Ambiwylans Sant Ioan.

YMDDEOLIAD. Dyma gyfle i longyfarch Arthur a Dilys Jones, Hafan Elan ar eu hymddeoliad ar ddiwedd y mis. Bydd cyfle i ymlacio a pheidio poeni am drefnu dim o hyn ymlaen, eistedd yn ôl a mwynhau cael rhywun arall i wneud y gofalu. Pob dymuniad da i'r ddau ohonoch ac rwy'n siŵr fod diolch cymaint o bobl i chi am eich gwasanaeth diflino ac arbennig iawn. Diolch nad ydych yn symud ymhell!

DIOLCHIADAU. Dymuna Sally a Rachel Thomas (Min-y-Rhos) a theulu'r ddiweddar Jennie May Jones, 12 Hafan Elan ddiolch o waelod calon i ffrindiau, perthnasau a chymdogion oll am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd tuag atynt yn eu profedigaeth sydyn. Diolch hefyd am y rhoddion hael a dderbyniwyd tuag at Ganolfan Hafan Elan a Ward y Glyder, Ysbyty Gwynedd.

Diolch arbennig i Mr a Mrs Arthur Jones, Hafan Elan am eu gofal tyner o Antie Jennie. Diolch yn fawr i bawb.

CARAI Mrs Annie Jones, Eilonwy, ddiolch i'w holl ffrindiau a chymdogion am y cardiau a'r

anrhegion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn 96 oed ar Ebrill 24 eleni.

LLONGYFARCHIADAU i Natalie, Dolwen ar gael Merit yn ei Arholiad Piano Gradd 4 yn ddiweddar.

LLONGYFARCHIADAU i Marc a Karen., Rhianfa, Ffordd yr Orsaf ar enedigaeth eu mab, Caio Morgan.

YSGOL GYNRADD LLANRUG. Mae'n amser cofrestru eich plentyn ar gyfer blwyddyn addysgol newydd 2001 - 2001.

Disgyblion Meithrin 2-3 oed
Dyma'r disgyblion sy'n mynychu sesiynau'r Mudiad Meithrin yn yr Uned dan arweiniad Mrs Gwen Edwards. Mae sesiwn bore a phrynhawn yn yr Uned a sesiwn Mam a'i Phlentyn bob prynhawn dydd Llun yn neuadd yr ysgol o 1.20 hyd 2.45.

Plant 3 oed, Medi 1, 2001.
Rhan Amser Uned Feithrin Ysgol Gynradd Llanrug
Athrawes Mrs Rhian Hughes a Mrs Maureen Williams.

5 sesiwn rhwng 9 - 11 a.m.
Mae angen cofrestru yn y Swyddfa gan lenwi ffurflen archebu dillad.

Gallwch hefyd wneud trefniadau gyda Mrs Gwen Edwards am sesiynau ychwanegol yn y caban meithrin rhwng 11.20am a 2 pm.

Plant Blwyddyn Derbyn - Llawn amser 9-3. 4 oed Medi 1, 2001.

Dosbarth Derbyn A - Miss Eleri Jenkins;

Dosbarth Derbyn B - Mrs Nan Roberts.

Eleni mae dau ddosbarth yn yr oedran yma yn yr Uned Newydd. Os nad yw eich plentyn yn mynychu'r Uned Feithrin ar hyn o bryd mae angen cofrestru cyn diwedd y mis.

Ffoniwch Ysgol Gynradd Llanrug ar (01286) 674905. Fax (01286) 676110; e-bost:

pennaeth@llanrug.gwynedd.sch.uk
ENILLWYR CLWB CYFEILLION MAI, 2001

£23: Mr Allan Jones, Ty'n Radd;
£13: Gill Rochell, Glyntwrog Inn;
£10: Mari Pleming, Cartrefle, Bryn Moelyn; £6: Lowri Haf Jones, Ffordd Glanmoelyn; £5: Rhiannon Evans, 24 Nant y Glyn.

ADRAN YR URDD. Cafodd aelodau'r Urdd ymweld â Maes Carafannau Bryn Teg yn ystod eu taith gerdded. Dymunant ddiolch i Swyddogion y Parc am eu croeso.

BORE BEICIAU. Dymuna Pwyllgor Ffrindiau'r Ysgol ddiolch am y gefnogaeth i'r bore beiciau. Mae'r elw wedi mynd i brynu beiciau i'r Adran Feithrin.

TRIP. Fel rhan o'n thema 'Ein Bro' bu disgyblion Bl. 3 a 4 ar ymweliad â Amgueddfa Lechi yn Llanberis.

Atodiad PENISARWAUN

LLONGYFARCHIADAU: i Iris Lloyd Williams (Caerbleddyn) am ennill Gradd Uwch M.Addysg, Prifysgol, Bangor. Pob dymuniad da i'r dyfodol.

Cefnogwch ein hysbysebwy



Llan Staff Siop Spar

Staff Siop Spar Llanrug a lwyddodd i ennill Lefel 1 NVQ yn ddiweddar.

(Cefn o'r chwith): Robin Thomas, Phillip Lynes, Iwan Williams, Jamie Scare, Donna Evans, Dewi Jones, Caroline Jones, Zoe Pritchard. (Blaen): Caryl Pugh, Alice Banholzer, Lesley Morgan, Alwena Jones, Vikki Williams, Meirwen Williams, Lynda Pritchard, Dafydd Price - Coleg Glannau Dyfrdwy.

Peidiwch gori ar stori. Anfonwch hi i'r Eco

antur WAUNFAWR

Gerddi'r Antur

Sadwrn, Mehefin 30, 10.30 - 3.00

diwrnod agored arbennig dan
Gynllun Gerddi Cenedlaethol

Caffi Blas y Waun ar agor

01286 650 721
www.anturwaunfawr.org



SPAR

Y STORFA LLANRUG

(Richard a Meirwen Williams)

Ffôn: (01286) 672790

Ar agor bob dydd
o'r wythnos at eich
gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am
ddanfon archeb i'ch cartref
yn ardal Llanrug

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

YSGOL GYMUNED. Fel rhan o'u thema aeth Bl. 3 a 4 yn ddiweddar i wneud ychydig o waith maes. Y chwarel yw'r rhan gwreiddiol o'r thema, felly dyma gychwyn trwy fynd i lawr i'r Cei Llechi yng Nghaernarfon i chwilio am dystiolaeth fod trê'n bach wedi cario llechi yno yn yr hen ddyddiau cyn iddynt gael eu hallforio i bob cwr o'r byd.

Roedd olion o'r hen gledrau i'w gweld o hyd yma ac acw ar hyd y cei, felly ymlaen â ni i ddal y trê'n bach, ac i fyny am Dinas. Y tywydd yn braf, ymddygiad y plant yn werth chweil a'r picnic ar y trê'n yn werth chweil hefyd.

O Dinas, draw i'r Amgueddfa yn Llanberis a rhyfeddu at amodau gwaith y chwarelwyr a'r tai a agorwyd yn ddiweddar. I gloi'r prynhawn, aethom i grombil y mynydd i gael blas ar sut mae trydan yn cael ei gynhyrchu. Diwrnod gwerth chweil a'r plant, fel arfer, yn ymddwyn yn ardderchog.

Daeth cynrychiolydd o'r Amgueddfa i weld y Babanod yn ddiweddar gan siarad am deganau a chwaraeon 'slawer dydd. Cyn bo hir fe fydd y dosbarth yn ymweld â'r Amgueddfa Plentynod ym Miwmares fel rhan o'u thema 'Tedis'.

Daeth ochenaid o ryddhad wedi i Bl. 6 orffen sefyll eu profion. Dymunwn y gorau i bob un ohonynt gan longyfarch Miss Jên Jones am ei gwaith caled eleni – ei blwyddyn gyntaf gyda Bl. 5 a 6. Mae'r plant mawr yn awr yn edrych ymlaen i ymweld ag Ysgol Brynrefail – eu hysgol newydd o Fedi ymlaen.

Cofiwch fod 'key rings' ar werth yn yr ysgol – £2.00 yr un gan gynnwys llun.

Gan edrych ymlaen tuag at ddiwedd y tymor mae'n bryd i ni'ch hysbysu fod yr Arolygwyr am ddod i edrych amdanom unwaith yn rhagor. Cynhelir y cyfarfod i'r rhieni ar nos Lun, Gorffennaf 2. Gobeithiwn yn fawr y byddwch ar gael i droi i mewn ar y noson a chanu ein clodydd!

GWELLHAD. Y mae'r wennol a'r gog wedi cyrraedd gan ddatgan

fod yr haf wrth y drws. Gobeithio y gwnaiff hyn i chwi deimlo'n well. Cofion annwyl atoch i gyd.

Ein dymuniadau gorau am adferiad iechyd buan i Mrs Eluned Jones, Cae Corniog; Mrs Peggy Mathews, Freshwinds; Mrs Sally Griffiths, 16 Bryntirion a Mr Ken Mowll, 19 Bryntirion. Rydym yn deall eich bod oll wedi cael triniaethau yn yr Ysbyty. Brysiwch wella i gyd.

LLONGYFARCHIADAU a phob bendith i Dion Roberts, Pendinas Mawr ar achlysur ei ben-blwydd yn 18 oed yn ddiweddar. Pob dymuniad da i ti i'r dyfodol, Dion.

Longyfarchiadau calonog i Miss White, Bryn Mair ar gyrraedd 90 oed. Ymlaen am y 100 rwan 'run fath â Mrs Annie Williams, drws nesad. Cofion annwyl atoch chithau hefyd Mrs Williams a da deall eich bod chwithau yn well wedi pwl go ddrwg yn ddiweddar.

TRIP YR YSGOLION SUL. Bydd y Trip eleni yn mynd i Southport ar y dydd Sadwrn cyntaf yng Nghorffennaf, sef Gorffennaf 7. Bydd y bws yn cychwyn o Groesffordd King am 8 o'r gloch. Y pris fydd £9 i oedolion a £4.50 i blant nad ydynt yn aelodau o'r Ysgol Sul. Enwau i Elizabeth Jones (872421) ag Ann Patterson (872405).

YSGOL SUL BOSRA. Dymuna'r athrawon a phlant yr Ysgol Sul longyfarch Anti Bronwen ar ennill gradd M.Addysg. Mae pawb yn anfon eu longyfarchion atoch.

Y GYMDEITHAS FEIBLAIDD. Cynhelir gwasanaethau'r Gymdeithas Feiblaidd ddydd Sul, Mehefin 24 am 2 a 6 o'r gloch yn Eglwys Santes Helen. Cymerir rhan gan blant yr Ysgolion Sul yn y pnaen, a cheir etiemau gan Barti Lleisiau'r Frogwy dan arweiniad Gareth Glyn yn yr hwyr. Gwneir casgliad at y Gymdeithas yn y ddau gyfarfod.

PROFEDIGAETH. Cydymdeimlir yn ddwys iawn â theulu Siop Gron. Bu farw mam Mr Michael Cairns yng Nghaer.

PWYLLGOR NEUADD. Bu'r tywydd yn ffafriol dros ben i'r noson Miri Mai a daeth nifer fawr o blant ac oedolion i fwynhau'r hwyl. Roedd y plant wrth eu bodd hefo'r

gemau ac yn arbennig y castell neidio. Do, bu Anti Jean ar y Castell Neidio hefyd ac roedd y plant wedi gwrroni ei gweld yn ymuno yn yr hwyl. Roedd y baned a'r bara brith yn flasus iawn.

Diolchir i bawb a gyfrannodd ac a gefnogodd y noson gan sicrhau noson gymdeithasol hwylus a difyr dros ben. Tynnwyd y raffl a'r enillwyr lwcus oedd Einion Glyn Morris, Janet Ash, Jean Jones a Louis Evans. Megan Elizabeth Jones ddyfalodd yn gywir faint o dda-da oedd yn y potyn.

Ymunodd tri aelod newydd â'r Clwb Cant a diolchir iddynt am eu cefnogaeth. Enillwyr mis Ebrill oedd Ron Hughes, Bryn Hyfryd; Eurwyn Jones, Camelot a R. Jones, Heatherbank.

Enillwyr mis Mai oedd Dic Parry, Tawelfa; Miss N. Williams, 15 Bryntirion ac Eifion Harding, Wipllan.

GWYL GORAWL ERYRI. Fore a phnawn Sul, Mai 20 roedd aelodau'r Ysgol Sul ac aelodau ifanc yr Eglwys yn cael eu harholi ar gyfer yr Wyl. Fe'i cynhelir eleni

yn Eglwys St Mair, Y Felinheli ar ddydd Sul, Mehefin 10: Gwasanaeth y plant am 2 o'r gloch a'r Gymanfa Ganu am 6 o'r gloch. Dymuniadau gorau i bawb a gymerodd ran.

GWIBDAITH I GEMAIS. Gobeithir trefnu gwibdaith i'n gefaill blwyf, Cemaïs, yn ystod yr wythnosau nesaf. Ceir manylion pellach yn y dyfodol agos.

Y FYNWENT. Eisoes mae un o'r ceisiadau i dorri gwair y Fynwent wedi ei dderbyn a bydd y gwaith yn cael ei ddechrau yn y dyfodol agos. Derbynnir unrhyw rodd tuag at y gost yn ddiolchgar trwy law Swyddogion yr Eglwys.

Y CARNIFAL. Fe gynhelir Pwyllgor yn Neuadd yr Eglwys nos lau, Mehefin 14 am 7 o'r gloch i drefnu wythnos o weithgareddau a'r Carnifal. Croeso cynnes i bawb.

POB LWC. Yr un yw dymuniadau y mis hwn eto i'r lluo ohonoch sy'n sefyll yr amrywiol arholiadau – pob lwc, gweithiwr yn galed ac yna ymlaciwrch a mwynhewch weddill yr haf.

Llythyr

31 Marlborough Place
Vaughan Street
Llandudno LL30 1AE

Annwyl Olygydd,

Daeth fy mhientyndod ar dyddyn yng Nghwm-y-glo i'm cof pan yn gwyllo helynt Clwyf y Traed a'r Genau. Roedd fy mam yn mwytho'r anifeiliaid ac roedd enw ar bob buwch. Weithiau roedd yn orfodol i werthu buwch, ac fe werthodd fy nhad fuwch odro i ffarmwr o Nant Peris am drideg o bunnau, ffortiwn bryd hynny. Ond yn anffodus roedd hiraeth ar y fuwch a'r cwbl oedd yn wneud trwy'r dydd oedd sefyll tu ôl i wal a'i thrwyn i gyfeiriad Cwm-y-glo yn brefu, a gwrthod rhoi diferyn o lefrith. Felly cafodd fy nhad ei alw yn ddyn anonest a dyna gam-ddweud mwyaf erioed am ddyn oedd yn rhy onest er ei les ei hun yn aml. Fe brynodd fy nhad y fuwch yn ôl

ond cafwyd diwedd trist i'r fuwch wedi iddi ddychwelyd adref, gan iddi lithro ar lawr y beudy ac fe grogodd ar y rhaff oedd am ei gwddf. Fe alwodd fy nhad ar ei frawd, Hugh Rich, Llanbêr, oedd yn rhoi cymorth ym mhob argyfwng. Fe ddaeth Huw ar ei feic i Lys-y-Gwynt a thorri bedd i'r fuwch yng ngwaelod y cae.

Mae'r olygfa bresennol ar y ffermydd yn drist. Mae'r golled ariannol yn fawr a hefyd yn emosiynol i rai sydd yn caru eu hanifeiliaid.

Credaf mai prynu bwyd iach i'r anifeiliaid yn y lle cyntaf yw'r ateb.

Yng Nghaernarfon yn siop tad a mam y gŵr enwog, Maldwyn Thomas, fyddai fy nhad yn prynu bwyd gwartheg yn y tridegau.

Mynd yn ôl i'r hen ffyrdd o fyw fydd raid a rhoi cynhaliaeth i'n gwlad ein hunain.

Gyda chofion cynnes
Catherine E. Roberts

Cefnogwch
ein
Hysbysebwyd

GLANHAWYR CARPEDI a POLSTRI

BRYNGWYN

Glanhau i fusnesau a chartrefi

Keith Rees Hughes
1 Cae Newydd, Llanrug

(01286) 674416 neu (07880) 847161



Dylan Griffith

Trefnwr Angladdau Annibynnol

TROS-Y-WAEN, PENISARWAUN

Ffôn: 871833 • Symudol: 07778 127394

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA



Cyrhaeddwch mewn steil – mewn cerbyd Rolls Royce ar gyfer priodasau, penblwyddi ac achlysuron arbennig eraill

Dylan Griffith, Tros-y-Waen, Penisarwaun
Ffôn: (01286) 871833

Co-op Llanrug

parhad o dudalen 1

Tristwch y sefyllfa yw fod nifer o'r cwsmeriaid yn oedrannus, a bydd colli'r gwasanaeth lleol (a oedd yn cynnwys danfon neges i'w cartrefi) yn golygu cryn anhwylostod iddynt. Tristwch pellach yw'r ffaith fod pump o staff yn colli eu gwaith, a'r gobaith am swyddi eraill o fewn y pentref yn anhebygol.

Mae'r pwyllgor bellach yn wynebu wythnosau anodd. Rhaid ystyried y gwahanol opsiynau ar gyfer yr aelodau. Er fod y busnes yn darfod, bydd yr adeilad yn parhau ym mherchnogaeth yr aelodau, a bydd angen penderfynu ar ei ddyfodol. Mae'n bosibl gwerthu'r cyfan fel siop i unrhyw un sydd yn ffyddiog y gellir cynnal busnes o'r fath yno. Mae'n bosibl i'r Gymdeithas rentu neu osod yr adeilad i denant. Mae'n bosibl hefyd gwerthu'r safle ar gyfer datblygu. Bydd angen pwyso a mesur oblygiadau'r posibiladau hyn cyn i'r aelodau

benderfynu'n derfynol ar dynged yr adeilad.

Hyd yn oed wedi i'r penderfyniad hwnnw gael ei wneud, bydd angen i'r aelodau wedyn ystyried dyfodol y Gymdeithas ei hun. Os penderfynir rhentu neu osod yr adeilad, bydd y Gymdeithas yn parhau mewn bodolaeth. Os penderfynir gwerthu - unai fel siop neu i ddatblgu - rhaid cysidro beth i'w wneud â'r arian ddaw i gronfa'r Gymdeithas. Mae'n bwysig felly fod holl aelodau'r Gymdeithas yn mynychu unrhyw gyfarfod a gynhelir yn ystod y deufis nesaf.

Ar hyn o bryd, mae'r siop yn cael ei hysbysebu gan Gwmni Bob Parry, Caernarfon a dylai unrhyw un sydd â diddordeb mewn rhentu neu brynu'r adeilad fel siop, gysylltu â'r Cwmni.

Mae'n holl bwysig dwyn i sylw'r ardal hefyd fod rhai sibrynnion di-sail wedi eu lledaenu o amgylch y pentref a thu hwnt. Nid oes unrhyw wirionedd yn yr honiad fod yn rhaid gwerthu'r siop a'r adeilad er mwyn i'r Gymdeithas fedru talu dyledion.

Penodi Swyddog Adfywio



Penodwyd Eurwyn Griffiths yn ddiweddar yn Swyddog Adfywio ar gyfer ardaloedd Caernarfon a Pheris.

Brodor o Ben Llŷn ydy Eurwyn. Aeth i weithio i Fant y Nat West yn syth o'r ysgol ac yno y bu am bedair blynedd ar hugain gan dreulio'r tair mlynedd olaf yn rheolwr cangen Gwasanaeth Cwsmer yng

Nghaernarfon.

Yn y Waunfawr mae'n byw ac mae'n aelod o gôr y pentref ac yn weithgar gyda'r clwb pêl-droed ieuenctid.

Gellir cysylltu ag Eurwyn yn 41B Stryd Fawr, Llanberis, Gwynedd. Ffôn: (01286) 870977 neu ar y wê: eurwyngriffiths@gwynedd.gov.uk

Y Sefydliad Coffa

parhad o dudalen 1

Eisoed mae rhai o fudiadau a chymdeithasau'r pentref wedi dangos diddordeb mewn gwneud defnydd o'r adeilad dros dymor y gaeaf. Mae Cyngor Cymuned Llanrug wedi cynnal cyfarfod yno'n barod, a bydd yr 'Eco' yn dychwelyd yno i gadw stoc o ôl-rifynnau. Cofiwch hefyd am Gyfarfod Blynyddol yr 'Eco' sydd i'w gynnal yno fis Mehefin. Dyma gyfle i gael golwg ar yr adeilad a rhyfeddu at y trwsnewid sydd wedi digwydd yno. Mae croeso i unrhyw un sydd â diddordeb mewn defnyddio'r adeilad i gysylltu ag unrhyw aelod o'r Pwyllgor, a chroesewir unrhyw un sy'n barod i gynnig cymorth gyda'r gwaith o gynnal y Sefydliad ar ei newydd wedd. Mae croeso arbennig i ieuenctid y pentref ddod draw i gynnig syniadau ar y math o gyfleusterau a fyddent yn hoffi eu cael yno.

Cefnogwch ein hysbysebwr

**MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO
YN ABBEY ROAD**



**BANGOR
(01248)
354646**

Enw Awdur

Cawsom wybod enw awdur yr hanes am fordaith i Batagonia - hanes a gyhoeddwyd yn y rhifyn diwethaf o'r Eco mewn ymateb i hanes tebyg yn Siambr Selwyn. Yr awdur oedd Mrs Beti Rourke o Taunton (Beti Rees o Ddinorwig gynt). Diolch iddi ac ymddiheurwn eto am yr amryfusedd.



Llun o Archif yr Eco

A allwch chi gofio'r achlysur yn y llun yma? Cysylltwch â'r Eco gyda'ch atebion.

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Camera yn ngofal Heulwen Hughes, Argoed. Ffôn: (01286) 650556

WAUNFAWR

CLWB 300. Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Ebrill:

£40: Mr I. Huws-Roberts, Bodrida; £25: Mrs A. Thomas, Giffach; £10: Mr Duncan Brown, Gwelfor, Ffordd Ceunant.

SEFYDLIAD Y MERCHED. Yng nghyfarfod mis Mai o'r Sefydliad estynnodd Mrs Mair W. Williams, y Llywydd, groeso i Mrs Pat Parry, fel VCO i egluro'r penderfyniadau sydd i'w trafod yn yr IGM yng Nghaerdydd ym mis Mehefin. Cafwyd ymateb ffafriol iddynt gyda gwelliant yn cael ei gynnig gan Mrs Anne V. Williams i un ohonynt.

Yn ystod y cyfarfod cafwyd ychydig o hanes y Sefydliad ers ei sefydlu yn 1928 gan Mrs Catherine Jones, sydd wedi bod yn aelod ers dros 50 mlynedd. Fe soniodd am rai digwyddiadau doniol ac am y gwahanol arddangosiadau a gafwyd a oedd yn wahanol iawn i rai heddiw! fel 'Sut i bluo a thrin ier' a 'Gwneud slipars o hen hetiau'.

Diolchwyd i Pat a Catherine gan y Llywydd. Enillwyd y raffl gan Mrs Menna McDaid. Bydd y pwyllgor nesaf yn cael ei gynnal yn Fferm Bodhyfryd ar Fehefin 1. DIOLCHIADAU. Dymuna Mrs Marian Williams, 18 Stad Tŷ Hen ddiolch i'w theulu a'i ffrindiau am y gofal a'r caredigrwydd a dderbyniodd tra'n derbyn triniaeth yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref.

DYMUNA Mr Ieuan Hughes, Wernas, 5 Stad Croes y Waun ddiolch o galon i staff Ward Ogwen, Ysbyty Gwynedd ac i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion, galwadau ffôn a'r cardiau a dderbyniodd tra bu yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref.

PEN-BLWYDD. Diwedd mis Ebrill bu Mrs Jones, Gors, Stad Tref Eilian yn dathlu cyrraedd ei phen-

blwydd yn 90 oed. Llongyfarchiadau mawr ichi ar yr achlysur. Dymuna Mrs Gwladys Jones ddiolch i bawb am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd.

DYMUNA Sarah Lewis, 4 Tref Eilian ddiolch o galon i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am y llu cardiau, blodau a galwadau ffôn tra yn yr ysbyty ac ar ôl dychwelyd adref.

DATHLU cyrraedd ei ben-blwydd yn ddeunaw oed y bu Hywel Jones, Heulfryn. Llongyfarchiadau iti a phob dymuniad da i'r dyfodol. LLWYDDIANT CERDDOROL. Llwyddodd Pryderi Thomas, Stad Tref Eilian yn yr arholiad Gradd 2 Piano gyda Theilyngdod. Llongyfarchiadau a dal ati. Wnei di ddim difaru.

PRIODAS. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Ceryl Davies, Stad Tref Eilian ar ei phriodas ag Andrew Stewart Norris o Preston. Maent wedi ymgartrefu yn Preston. Erbyn hyn mae Ceryl yn dilyn ei hastudiaethau mewn coleg ym Manceinion.

PRIODAS., Dydd Gwener, Ebrill 20 priodwyd Elena, 17 Stad Tŷ Hen ag Arwyn o Lanrwt. Llongyfarchiadau mawr i chi a phob dymuniad da a hapusrwydd yn eich cartref yng Nghaerdydd.

YN YR YSBYTY. Anfonwn ein cofion cynhesaf at Mrs Rhian Jones, Tref Eilian a Mr Brian Parry, Bro Waun sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd.

ADREF O'R YSBYTY. Croeso adref o'r Ysbyty i Mr Ovary, Pant y Waun; Mr Rol Williams, Ardwyn; Mr John Ellis, Ty'n Llidiart; Mr Ieuan Hughes, Wernas, Stad Croes y Waun; Mrs Marian Williams, 18 Stad Tŷ Hen a Mr Bill Lewis ac Alvona, Stad Tref Eilian. Gobeithiwn y byddwch yn cryfhau

Cymanfa Ysgolion Sul Cylch Padarn

Cynhaliwyd Cymanfa Ysgolion Sul Cylch Padarn yng Nghapel Cefnywaun, Deiniolen bawn a nos Sul, 6 Mai, 2001.

Arweinydd y Gân oedd Mrs Glenys Griffith, Bethel ac yn cyfeilio roedd Mr Gareth Jones, Llanberis a Mrs M. C. Griffith, Cefnywaun. Cymerwyd y gwasanaeth dechreuol yn y pnawn gan blant Ysgol Sul Unedig Deiniolen ac yn yr hwyr gan Mrs Eirlys Gibson, Mrs J. Thorman Jones a Miss Marian Jones, Cefnywaun.

Bu'r canlynol yn llwyddiannus yn y maes llafur:

Dan 4: Catrin Elen Jones, Catrin Griffith, Llyr Garmon Jones, Rhys Ellis Jones, Deiniolen; Lliwen Mair Morris, Dinorwig; Elliw Saynor, Capel Coch; Gethin Wyn Harper, William Deulyn Coles, Cysegr.

Dan 5: Elin Tomos, Kimberley Jones, Huw Owen, Capel Coch; Guto Sion Griffiths, Iolo Rhys Hughes, Iwan Huw Harper, Cysegr.

Dan 6: Tudur Williams, Deiniolen; Derry Jane Laura

ac yn gwella yn ddyddiol.

Bu Miss Eirlys Jones, Maelor, Stad Tref Eilian; Mr Richard Owen, Stad Bro Waun a Liam Rowlands yn derbyn triniaeth i'w llygaid yn yr ysbyty. Dymunwn wellhad buan i chithau hefyd. GOBEITHIWN fod lliid Bryn, Perthi yn gwella wedi iddi losgi ei llaw yn ei chartref ac hefyd fod Mrs Menna McDaid, Lloches yn gwella wedi iddi gael damwain yn ei chartref.

LLONGYFARCHIADAU i holl aelodau'r ddwy Ysgol Sul fu'n cymryd rhan yn y Gymanfa yng Nghapel Siloam, Bontnewydd fore Sul, Mai 20 ac i'r rhai a dderbyniodd dystysgrif am ddysgu y Maes Llafur.

DYMUNIADAU gorau i Sion Owen, Ty'n Mynydd ar ei briodas ac Awen Llwyd Owen o Ffrwd Cae Du.

Rhifyn nesaf yr Eco fydd yr un olaf cyn gwylliau'r haf. Felly os oes yna unrhyw ddigwyddiad yr hoffech ei gyhoeddi erbyn yr haf dyma'ch cyfle olaf. Dowch a'ch newyddion i gyd hefyd.

Sinclair, Dinorwig; Gwenno Tudor Roberts, Lowri Mai Sharpe, Glesni Mai Sharpe, Cysegr.

Dan 7: Manon Elwyn Hughes, Elin Owen, Branwen Lydia Price, Aled Einion, Gethin Wyn Griffiths, Gerallt Bryn Jones, Thomas Richard Caulcutt, Gruffudd John Williams, Cysegr; Ffion Wyn Jones, Deiniolen.

Dan 8: Gwenno Medi Morris, Dinorwig; Anna Gwenllian George, Brynrefail; Dyfan Coles, Cysegr.

Dan 9: Manon Wyn Jones, Ashley McGuigan, Deiniolen; Llion Jones, Tomos Owen, Heledd Tomos, Capel Coch; Siân Harding Evans, Sion Elwyn Hughes, Enfys Roberts, Angharad Price, Sioned Meleri Owen, Cysegr.

Dan 10: Rhian Elin George, Awen Jones, Caryl Jones, Brynrefail; Sara Jones, Sara Parry, Alaw Tomos, Capel Coch; Hefin Owen, Cysegr; Caryl Ann Williams, Deiniolen.

Dan 11: Sioned Mair Phillips, Dinorwig; Tomos Parry, Capel Coch; Aled Gwilym Jones, Cysegr.

Dan 12: Daniel McGuigan, Deiniolen.

Dan 13: Donna Elizabeth Philips, Doinorwig.

Dan 17: Iwan Ellis Morris, Cysegr.

Oedolion: Mrs Edwina Morris, Mrs Nora Parry a Mrs Nancy Williams, Cysegr.

Carai'r Pwyllgor ddiolch i Swyddogion ac aelodau Capel Cefnywaun am eu cymorth i drefnu'r Gymanfa ac i bawb a'i cefnogodd. Diolch arbennig i Mrs Glenys Griffith am arwain y Gymanfa ac i Mr Gareth Jones a Mrs M. C. Griffith am gyfeilio. Hefyd gwerthfawrogi cyfraniad Mr Eifion Williams a'r Parch D.J. Pritchard am lywyddu'r cyfarfodydd.

Cefnogwch ein hysbysebwyd

CEIROPODYDD

Mrs S. Groom MSSCh, MBChA

Yn ymweld â'ch Cartref i drin traed

Triniaeth ar gyfer:

Traed Poenus; Croen Caled; Verruca; Cym a Chroen Caled; Ewinedd yn tyfu i'r byw; Torri Ewinedd; Gofal a Thyllino Traed.

Ffôn: (01248) 605450 neu

07747 696267 (symudol)

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd
DEINIOLEN
(01286) 870484

Bysiau o 12 i 53 sedd

Teithiau Lleol a Thramor

Gwaith Contract

Telerau arbennig i
bensynwyr, myfyrwyr a
phlant ysgol

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR

Ffôn/Ffacs: (01286) 650291



Dewis eang
o Welyau a 3P/Suites.
Llenni Venetian a Llenni Roler.
5,000 llathen sgwâr o garpedi
mewn stoc – allwch chi
fforddio prynu o batrymau?

GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

Ar Agor

9-7 pm

9-5 pm Sadwrn

Ar Gau

Sul a Mercher

Wavell Roberts

CIGYDD
London House
LLANRUG

Ffôn: (01286) 673574
PEN CIGYDD Y FRO

Yrŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref

Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

Cyngor Cymuned Llanberis.

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor yn 'Angorfa', Llanberis ar nos Iau, 17eg o fis Mai. Etholwyd y Cyngorydd Dei Tomos yn Gadeirydd am y flwyddyn, a'r Cyngorydd Helen Sharp yn Is-gadeirydd. Penderfynwyd fod aelodaeth yr is-bwyllgorau i aros fel o'r blaen. Derbyniwyd y fantolen ariannol am y flwyddyn 2000-2001.

Adroddwyd fod trafodaethau'n parhau ynglŷn ag arddangosfa T. Rowland Hughes ond fod unrhyw drosgrwyddo, os byddai hynny'n bosibl, yn debygol o gymryd peth amser. Oherwydd hynny, penderfynwyd fod y Cyngor yn parhau gyda defnydd 'Angorfa' hyd o leiaf ddiwedd y flwyddyn bresennol.

Derbyniwyd ateb gan Gyngor Gwynedd yn dweud fod gwli i'w gosod ar y ffordd rhwng Bron Eryri a Llain Wen i waredu dŵr wyneb. Adroddwyd hefyd fod mwy o finiau sbwriel i'w gosod ar y Stryd Fawr yn Llanberis yn ystod yr wythnosau nesaf.

Cafwyd adroddiad gan y Cyngorydd Derek Jones ar gyfarfod yng Nghaernarfon rhwng cynrychiolwyr y cynghorau lleol, yr Heddlu ac aelodau o'r Ynadon ynglŷn â newidiadau arfaethedig i leoliad y brif swyddfa heddlu, a'r pryderon ynglŷn â'r llysoedd yng Nghaernarfon a Bangor.

Derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig a llafar gan y Clerc ar gynhadledd yn Aberystwyth i drafod effeithiau twristiaeth ar ieithoedd lleiafrifol. Roedd ymchwil gan Brifysgol Cymru yn dangos fod effeithiau niweidiol i'r iaith Gymraeg mewn ardaloedd twristaidd. Yr ardal a astudiwyd ganddynt oedd gogledd-orllewin Cymru, gyda chymuned Llanberis yn rhan o'r astudiaeth.

Ystyriwyd cais cynllunio i newid defnydd coedwig fasnachol (Coed Fictoria) i faes pebyll a charafannau symudol. Gohiriwyd y cais hwn o fis Awst y llynedd. Penderfynodd y Cyngor lynu at eu

gwrthwynebiad gwreiddiol, ac i ddwyn sylw'r awdurdodau at yr adroddiad diweddaraf gan Brifysgol Cymru ar effeithiau niweidiol twristiaeth (yn enwedig meysydd carafannau) i'r iaith Gymraeg.

Penderfynwyd fod y Cyngorydd Ken Jones yn gwneud arolwg o'r fynwent i nodi pa gerrig beddau sydd mewn cyflwr ansad, ac i adrodd yn ôl er mwyn i'r Cyngor gymryd camau i ddiogelu'r cyhoedd. Pwysleisir mai cyfrifoldeb y teuluoedd yw cyflwr y cerrig yn y fynwent, ac nid cyfrifoldeb y Cyngor.

Derbyniwyd gohebiaeth gan Gyngor Gwynedd ynglŷn â newid amser cyfarfodydd Ardal y Llechen er mwyn galluogi cynrychiolydd y Cyngor i fynychu'r cyfarfodydd. Yn y cyswllt hwn, derbyniwyd adroddiad byr gan y Cyngorydd Emlyn Bayliss ar ran o'r gwaith gyda chwmni Adwy Cyf.

Derbyniwyd llythyr oddi wrth Brosiect Llanberis yn nodi newid dyddiad cyfarfod yn y Ganolfan, ac yn cynnwys taflen hysbysebu am yr ardal gan Gonsortium Busnes Llanberis. Penderfynwyd anfon at y Consortium yn gresynu am y diffyg sylw i'r Gymraeg yn y daflen.

Derbyniwyd adroddiad byr gan y Clerc am oblygiadau Deddf Llywodraeth Leol 2001, a'r angen i aelodau nodi buddiannau ar gofrestr arbennig. Gofynnwyd i'r Clerc baratoi taflen enghreifftiol i'r aelodau erbyn y cyfarfod nesaf.

Tynnwyd sylw at gyflwr nifer o waliau cerrig yn yr ardal, a phenderfynwyd anfon at Gyngor Gwynedd a pherchnogion eraill i ddwyn y materion i sylw. Gofynnwyd hefyd i'r Clerc gysylltu â Chyngor Gwynedd ynglŷn â dŵr gorlif ar y Stryd Goodman ger Field Terrace.

Bydd cyfarfod nesaf y Cyngor ar nos Iau, Mehefin 21ain yn 'Angorfa' am 7.00 o'r gloch.

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

UNDEB-Y-MAMAU. Nos Lun, Mai 14 cyfarfu'r aelodau gyda aelodau cangen Llanberis yng Nghrefftau Cae Coch, Llanberis. Croesawyd pawb gan Mrs Pat Jones. Trefniant Blodau oedd y pwn a mwynhaodd pawb Mrs Jones yn gwneud y trefniadau. Cafwyd lluniaeth ysgafn wedi ei baratoi gan Mrs Jones. Diolchwyd iddi gan Mrs Joyce Ransom am noson ddiddorol iawn. Enillwyd y raffl gan Mrs C. Roberts, Llanberis.

Nos Fawrth, Mai aeth nifer o'r aelodau i Wasanaeth y Ddeoniaeth yn Eglwys Glanogwen, Bethesda. Cariwyd Baner Undeb-y-Mamau gan Mrs Margaret Latham, Llanrug.

DIOLCHIADAU. Dymuna Vivienne a Nia, plant y ddiweddar Mrs Ellen Williams, (Ore, gynt), Pentre Berw, Ynys Môn, a fu gynt yn byw yn Llanrug a Thy Capel Cwm-y-glo, ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli eu mam yn ddiweddar.

Derbyniwyd £470 er cof am Mrs Williams a bydd y swm yn cael ei rannu rhwng Ward Moelwyn a Ward Gofal Dwys y Plant, Ysbyty Gwynedd.

CAPEL Y TABERNACL. Dydd Sul, Ebrill 8 cynhaliwyd Cymanfa Cylch Cwm-y-glo yma yn y Tabernacl. Braint oedd cael gwahodd y Gymanfa yma eleni am y tro cyntaf ers blynyddoedd lawer.

Cafwyd eitemau gan blant Ysgolion Sul Bosra, Deiniolen, Llanberis a Chwm-y-glo. Croesawyd pawb yn gynnes gan y Parch John Pritchard a chymerwyd y rhan agoriadol gan Mr David Price a Dr Graham Thomas. Arweinydd y Gân oedd Mrs Mair Huws (prifathrawes yr ysgol) a'r Organyddes oedd Mrs Cassie Thomas. Gwnaed casgliad i Gronfa Katalan, y ferch fach y mae'r Ysgolion Sul wedi ei mabwysiadu. Diolchwyd i bawb am eu cyfraniad, ac yn arbennig i'r plant a'r rhai fu yn eu hyfforddi, gan Mr Robert Lloyd. Rhoddwyd y fendith i derfynu gan y Parch Gwynfor Williams.

LLONGYFARCHIADAU i Vera a Dafydd, Tan-y-graig ar fod yn daid a nain am y tro cyntaf. Ganwyd merch fach, Louise Amy, i Gareth a Lucy yng Nghaernarfon. Hefyd i Mr a Mrs Fowler, Bodlondeb ar fod yn hen daid a hen nain am y tro cyntaf.

DIOLCH. Dymuna Vera, Dafydd, Gareth a Lucy ddiolch o galon i bawb am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar enedigaeth Louise Amy.

LLONGYFARCHIADAU i Mrs Mair Williams, Elidir View, Bwlch ar achlysur ei phen-blwydd yn 80 oed. Hefyd i Mrs Hannah Mary Roberts, 1 Bryn Gro ar dathlu ei phen-blwydd yn 90 oed. Pob dymuniad da i'r ddwy ohonoch.

NANT PERIS

Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon. Ffôn: (01286) 871820

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390

DYMUNIADAU GORAU i Mrs Alice Searell-Jones, Gwynant, Nant Ffynnon ar dathlu ei phen-blwydd yn 80. Gobeithio y cawsoch chi hwyl ar y dathlu!

GWELLHAD BUAN i Jessica Sibley, Llys Awel a fu yn yr ysbyty am driniaeth yn ddiweddar.

DIOLCH. Dymuna Gwilym ac Alice Searell ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, yr anrhegion, y blodau a'r galwadau ffôn a dderbyniwyd yn

ystod y cyfnod y bu Gwilym yn yr ysbyty ac ar ben-blwydd Alice yn 80.

CYDYMDEIMLAD. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Mrs J. Williams, Eilian, Elfyn a'r teulu o golli gŵr, tad a thaid annwyl yn ddiweddar - Mr Arthur Williams.

**Cefnogwch
ein
hysbysebwy**



**Gwynedd
Hotel
& Restaurant**

Llanberis 870203

Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau, bedydd, pen-blwydd a phob achlysur arbennig arall. Gallwn drefnu adloniant - disgo a.y.y.b.

Bwrdd Pŵl ar gael
Bwydlen Bar a Restaurant
Trwydded lawn tŷ tafarn.

Alwyn a Sarah Jones

BLODAU

**RACCA
PENISARWAUN**

Blodau ar gyfer pob achlysur

Dewis da o Lysiau Fferm

Wyau *Free Range*

Ar agor saith diwrnod

870605



**Danfôn 7 diwrnod
yr wythnos
drwy'r fro**

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**

**21 Stryd Fawr
PORTHAETHWY**

Ffôn: (01248) 714043

neu **Caernarfon**

Ffôn: (01286) 674520

Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. Ffôn: 870292

DIOLCH. Dymuna Mr a Mrs Llewelyn Jones, 4 Bro Elidir a'r plant, ddiolch o galon i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbynwyd yn eu profedigaeth lem o golli brawd ac ewythr yn sydyn iawn.

CYMDEITHAS TRIGOLION DINORWIG. Cynhaliodd y Gymdeithas uchod ddiwrnod o hwyl i bobl ifanc ym Mhlas y Brenin. Sylfaen Cymunedol Cyf oedd yn rhedeg y diwrnod ac ariannwyd y cynllun gan Gyngor Gwynedd. Deallaf iddynt dderbyn dros fil o bunnoedd.

Roedd 9 o bobl ifanc yr ardal yn bresennol a chawsant gyfle yn ystod y dydd i roi eu barn ar yr hyn yr hoffent ei weld yn digwydd yn y pentref. Cawsant gyfle hefyd i ymarfer ar y wal ddringo a'r llethr sgîo. Bydd eu syniadau a'u hawgrymiadau yn cael eu cyflwyno i'r Gymdeithas ac i Gyngor Gwynedd mewn adroddiad a fydd yn cael ei baratoi gan Sylfaen.

Bydd ail ddigwyddiad yn cael ei drefnu yn y dyfodol agos, ac os oes rhywun yn y pentref rhwng yr oed 11 a 18 â diddordeb mewn cymryd rhan, cysylltwch ag un o aelodau'r pwyllgor cyn gynted ag sydd yn bosib. Hoffai'r Gymdeithas ddiolch i Theresa Whittall a Philip Johnson am sicrhau arian ar gyfer y cynllun. Diolch hefyd i Brian Thirsk, Val Williams a Sian Thomas o Sylfaen am redeg y diwrnod. Diolch hefyd i Philip Johnson am yrru'r bws.

CYMANFA YSGOL SUL. Cynhaliwyd y Gymanfa eleni yng Nghapel Cefn-y-waun ar Fai 6. Arweinydd y gân oedd Mrs Glenys Griffith, Bethel ac yn cyfeillio yr oedd Mr Gareth Jones, Llanberis a Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cefn-y-waun.

Llywyddwyd cyfarfod y prynhawn gan Mr Eifion Williams a chymerwyd y rhan agoriadol gan blant Ysgol Sul Unedig Deiniolen. Llywyddwyd cyfarfod yr hwyr gan ein gweinidog, y Parch D. John Pritchard a chymerwyd y rhan agoriadol gan Mrs Eirlys Gibson, Mrs Jane Thorman Jones a Miss Marian Jones, aelodau o Eglwys Cefn-y-waun.

Cafodd plant Ysgol Sul

Dinorwig hwyl ardderchog gan iddynt dderbyn marciau llawn yn yr arholiadau llafar. Dan 4: Lliwen Morris; Dan 6: Derry Jane Sinclair; Dan 9: Gwenno Morris; Dan 12: Sioned Mair Phillips; Dan 13: Donna Phillips.

Rhaid estyn diolch i Mrs Katie Lloyd Hughes, 2 Maes Eilian am ddal i gynnal yr Ysgol Sul yn ei chartref ac am addysgu'r plant, ac wrth gwrs i'r plant a'u rhieni am ddangos diddordeb. Da iawn chi blant, daliwch ati.

Y GANOLFAN. Fel ag y bu imi fynegi ichwi yn yr Eco dro yn ôl cawsom gyfarfod hefo Mr Peter Lunt Williams, Pennaeth Uned Gwasanaethau Ieuenctid a Chymuned, Adran Addysg Diwylliant a Hamdden Cyngor Gwynedd ar nos Iau, Ionawr 18. Yn anffodus bu Mr Williams yn sâl o'i waith o'r diwrnod canlynol tan rai dyddiau yn ôl. Derbyniwyd llythyr gan Mr Williams ar Ebrill 27 a dyma a ddywed:

'Hoffwn gadarnhau ei bod yn holl bwysig fod Pwyllgor y Ganolfan yn mabwysiadu ffioedd realistig am osod y Ganolfan i'r holl ddefnyddwyr. Mater i'r Pwyllgor yw gosod y lefelau hyn ond, wrth ddod i benderfyniad, rhaid ystyried bod angen swm o arian bob blwyddyn tuag at gynnal a chadw y tu mewn i'r adeilad.

O edrych ar ganolfannau tebyg ar draws y Sir mae'n deg dweud bod y tâl gosod yn cael ei godi ar bawb yn y rhan fwyaf o leoliadau.

Yn ein cyfarfod ar 18 Ionawr fe soniwyd bod rhai grwpiau o'r tu allan bellach yn defnyddio'r Ganolfan ac, yn sgîl hyn, tybiaf y dylid cymryd hyn i ystyriaeth wrth osod ffioedd. Soniwyd hefyd fod y Ganolfan wedi ei gosod i bartïon ble roedd tipyn o ddiodydd meddwol yn cael eu hyfed. Ofnaf nad yw hyn yn dderbyniol yn adaeiladau'r Cyngor.

Ar ôl edrych yn ofalus ar y sefyllfa credaf bod angen i'r Pwyllgor feddwl am dair lefel o ffioedd ar gyfer gosod y ganolfan. **Lefel 1:** Gweithgareddau gan neu ar gyfer trigolion Dinorwig. Efallai y gellir meddwl am y lefel yma fel 100% o'r ffi gosod.

Lefel 2: Gweithgareddau gan neu ar ran trigolion y tu allan i gylch Dinorwig. Dylid meddwl am osod y

ffioedd yma o leiaf 50% yn uwch na Lefel 1.

Lefel 3: Defnydd masnachol, e.e. Ocsiwn neu at ddefnydd cwmni teledu. Dylid meddwl am osod y ffioedd yma o leiaf ddwbwl Lefel 1.

Mae'n bwysig fod pob defnyddiwr yn talu am ddefnydd y Ganolfan, ac os oes unrhyw amheuaeth a ydynt am dalu ai peidio yna mae'n deg gofyn am daliad o flaen llaw.

Yn naturiol mae rhai amgylchiadau yn mynd i godi ble efallai fod y Pwyllgor o'r farn na fydd unrhyw dâl yn cael ei godi, ond fel rheol achosion prin iawn ydi'r rhain.'

Mae pwyllgor y Ganolfan yn ddiolchgar iawn i Mr Williams am ddod i'w cyfarfod ac am roi ei sylwadau ar bapur. Diolch yn fawr iddo gan fod hyn wedi bod yn dipyn o boen meddwl. Hefyd yr ydym yn dymuno llwyr iachad iddo.

CLWB ORWIG. Mewn cyfarfod o'r uchod, ar Ebrill 12, cafwyd sgwrs gan Marian Ashcroft - Swyddog Adroddiadau Cwsmer i'r Gorchwylwr Budd Lles. Cafwyd cryn dipyn o wybodaeth ganddi oedd o gymorth i'r gymuned. Diolchwyd iddi gan John Smith yna fe aed ati i dynnu rhaglen i ddiwedd Mehefin. Cafwyd y Sefyllfa Ariannol gan y trysorydd, Betty Bower. Rhoddwyd y te gan Sally a John Brenan ac enillwyd y gwobrau gan Maggie Jane Jones ac Elizabeth Jones.

Yn y cyfarfod nesaf cafwyd sgwrs gan Ruth Boothroyd am sut i wneud 'Tedis'. Fe ddechreuodd drwy wneud un i'w merch Hannah, ac o hynny ymlaen aeth ati o ddiffr i'w gwneud. Maent yn hynod o boblogaidd erbyn hyn ac yn gwerthu dros y môr. Cafwyd llythyr o ddiolch gan Niall Brannegan, cyn-ddisgybl o Ysgol Syr Hugh Owen. Bu i Niall orffen ras marathon Llundain mewn 3 awr a 28 munud. Yr oedd wedi ei noddi i hel arian at Ymchwil i Glefyd Swigwr. Bu iddo gasglu £1,750 ac roedd aelodau'r clwb wedi cyfrannu £115. Rhoddwyd y te gan John ac Olwen Smith ac enillwyd y raffl gan Anne Lo a Morfudd Jones.

Yn y cyfarfod diwethaf cafwyd sgwrs a sleidiau gan Mr Dafydd Roberts a'r Amgueddfa Lechi yn Llanberis. Dywedodd wrthym am y rhan fawr a chwaraewyd gan Chwareli Gogledd Cymru gan mor bwysig oedd y llechen las.

Diolchwyd iddo gan Ray Bower. Rhoddwyd y te gan Bellie Wyn Jones a Morfudd Jones. Enillwyd y raffl gan Megan Morris a John Cambrell. Llywydd y dydd oedd Mr John Smith.

CAPEL SARDIS. Bu plant Capel Sardis yn llwyddiannus yn arholiad y Gymanfa Ganu a gynhaliwyd ym Mhenrhyn-deudraeth ar ddydd Sul, 6 Mai. Y rhai a dderbyniodd dystysgrif oedd: Gwilym E. Jones; Gruffydd A. Jones; Manon Clarke; Megan E. Jones; Einion G. Morris; Bleddyn J. Clarke ac Elen G. Morris. Llongyfarchiadau i bob un ohonynt a daliwch ati.

CYRDDAU PREGETHU'R SULGWYN. Cynhelir y CyRDDau Pregethu yn Sardis ar y Sul, Mehefin 3 am 2 y prawn a 5.30 yr hwyr. Y pregethwr gwadd fydd y Parchedig John Treharne, Caernarfon. Croeso cynnes i bawb.

POBOL MEWN CYMUNEDAU. Gyda chryn ddiddordeb y bu imi ddarllen am y cynllun yma yn yr Eco y mis diwethaf, ac roedd fy ngwaed yn berwi.

Wrth fynd a dod trwy bentref Deiniolen y mae'r newidiadau yma yn weladwy iawn, a rhaid cyfaddef fod y pentref yn edrych yn llawer gwell o'u herwydd.

Cefais fenthg cofnodion o'r strategaeth ac, er syndod, uniaith Saesneg oeddynt, ac yn waeth na hynny nid oedd sôn am bentref Dinorwig ynddo. Yr oedd yn dod o dan y testun 'Strategaeth Deiniolen a Chlwt-y-bont. Ble tybed oedd Dinorwig?

Yn 1999 penodwyd Mair P. Owen am gyfnod o ddwy flynedd fel Cyd-lynydd y prosiect yn yr ardaloedd Deiniolen, Clwt-y-bont a **DINORWIG**. Gwelwyd hi unwaith yn y pentref yma ac, er llawer galwad ffôn, ni chafwyd dim ymateb ganddi. Briswion mân iawn a dderbyniodd y r ardal yma. Paham tybed?

Mae llawer o bethau gweladwy iawn ei angen ar y pentref. Mae'r ffordd o Ddiniolen i fyny yma yn gywilyddus, mae'n dyllau i gyda rhai ohonynt wedi eu llenwi hefo tar a hwnnw'n hollol anwastad, ac mae wedi bod felly am beth amser. Tybed a oes raid disgwyl am ddamwain?

Ni all neb fynd yn rhy agos i'r waliau ar ochr y ffordd gan eu bod yn bochio allan mewn llawer man ac yn hynod beryglus.


Mae ffenestri ffrynt Bro Elidir ar

GWYN JONES FFENESTRI ERYRI GARTH ISAF, LLANRUG

(01286) 650764

neu

W. G. Roberts (Wil Korea)
676741



BLYNYDDOEDD O BROFIAD YN Y MAES

FFENESTRI

DRYSAU

DRYSAU PATIO

PORCHES

BYRDDAU FFASIA

CLADIO

CONSERFATERIS

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL
A RHAD YM MHYDAIN A THRAMOR. . .



BYSIAU ARFON LLANRUG

Ffôn: (01286) 675175 a 677858

y tai ers eu hadeiladu, dros hanner can mlynedd yn ôl, ac erbyn hyn mae'r paent wedi gwisgo i fwrdd. Cafwyd addewid o rai newydd chwe blynedd yn ôl ond rydym yn dal i ddisgwyl, a dywed y Cyngor nad yw yn bolisi ganddynt baentio.

Cae Chwarae'r Plant: nid yw y tyfiant wedi ei dorri arno o gwbl eleni, ac y mae gwir angen am fwy o bethau i'r plant chwarae arnynt.

Tybed pa bryd y bu'r Cynghorwyr yn edrych ar anghenion yr ardal ac a yw pawb wedi ein hanghio.

Yr wyf yn ddeall fod Mair P. Owen wedi gadael erbyn hyn. Gobeithio y bydd mwy na briwsion yn dod yma yn y dyfodol ac y bydd y rhwyg sydd wedi cael ei greu yma yn cael ei ddadwneud.

DRAENOG



Aeth un o ffermwyr cefnog y Nant am dro i rasys ceffylau yng Nghaer. Carem ei longyfarch yn fawr am gael cinio blasus hefo'r 'WINSORS'.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

SPAR

Y STORFA LLANRUG

(Richard a Meirwen Williams)

Ffôn: (01286) 672790

Ar agor bob dydd o'r wythnos at eich gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am ddanfon archeb i'ch cartref yn ardal Llanrug

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

SEFYDLIAD Y MERCHED. Ar Ebrill 23 yn Ysgol Gymuned Cwm-y-glo cyfarfu'r gangen leol dan lywyddiaeth Mrs Pat Jones. Mr Evan Jones, Prifathro Ysgol Pendalar oedd y siaradwr gwadd a rhoddwyd sgwrs ganddo am waith yr ysgol. Cafwyd cyfle i weld dwy fideo, y naill yn dangos nifer o weithgareddau yr ysgol a thîm S4C yn creu safle chwarae newydd ar dir yr ysgol a'r llall yn dangos cynllun integreiddio'r disgyblion a disgyblion Ysgol Gynradd Bontnewydd. Trefnwyd y lluniaeth gan Mrs Anita Long a Mrs Carol Houston. Enillydd gwobr y mis, rhoddedig gan Mrs Gwenda Roberts, oedd Mrs Verna Jones. Enillydd gwobr arbennig o Wy Pasg a gyflwynwyd gan Mrs Blodwen Hughes, 12 Trem Eilian oedd Ffion o Hyfforddiant Gwynedd. Gwnaed elw o £35 a'i gyflwyno i Ysgol Pendalar.

Nos Lun, Mai 22, daeth yr aelodau ynghyd i drafod yr Argymhellion ar gyfer Cyfarfod Blyneddol Sefydliad y Merched a gynhelir eleni yng Nghaerdydd. Mae dau argymhelliad gerbron sef y galw am Wasanaeth Nyrsio llawnach i ysgolion ac, yn wyneb safonau'r ymdriniaeth a dderbynia rhai henoed mewn cartrefi, y galw am hyfforddiant i'r rhai sy'n gweini arnynt. Treuliwyd gweddill y noson yn trefnu'r Sioe Ffasiwn a gynhelir yng Ngwesty Fictoria, Llanberis nos Lun, Gorffennaf 2. Pris tocyn fydd £5.00.

Dymunwyd gwellhad buan i Mrs Helen Morris ar ei dychweliad o'r ysbyty. Paratowyd y lluniaeth gan Mrs Helen Morris a Mrs Verna Jones. Enillydd gwobr y mis, rhoddedig gan Mrs Nerys Roberts, gan Mrs Verna Jones. YR EGLWYS BRESBYTERAIDD CYMANFA DOSBARTH PADARN Cynhaliwyd y Gymanfa eleni yng Nghapel Cefn-y-waun, Deiniolen. Longyfarchiadau i Caryl ac Awen Jones, Na Nog a Rhian ac Anna George, Swm yr Engan, aelodau ffyddlon o'r Ysgol Sul am ennill Tystysgrifau am eu gwaith ym maes yr Arholiad Llafar. Y GYMDEITHAS. Cyfarfu'r aelodau yn y Ffestri nos lau, Mai 10. Cadeirydd y noson oedd Mrs Jennie A. Roberts, 2 Ffrwd Madog. Cymerwyd at y myfyrdod

gan Mrs Ifanwy Jones. Croesawodd y Cadeirydd wraig wadd y noson, sef Mrs Thita Owen, Mynydd Llandygai. Treuliwyd noson bleserus a hamddenol yn ei chwmni yn rhannu â'r aelodau rhai o gyfrinachau trin blodau i wneud trefniant i wahanol achlysuron. Edmygwyd ei chreffft yn fawr ac ar y terfyn cyflwynodd ei gwaith fel rhodddion i dri o aelodau'r Gymdeithas. Y tri ffodus oedd Mrs Eirianwen Evans, Mr Norman Williams a Mr Gwyn Hefin Jones. Diolchwyd iddi gan y Cadeirydd. Paratowyd lluniaeth gan Mrs Dilys Morris a Mrs Mair Davies. Bydd y cyfarfod nesaf nos lau, Mehefin 14 yng nghwmni Mr Bobby Haines, Caernarfon a'r Cadeirydd fydd Miss Alice Williams.

CASGLIAD. Yn ystod y mis bu cnagen y chwiorydd yn trefnu'r casgliad blyneddol tuag at waith y Genhadaeth dan nawdd Cyfeisteddod Chwiorydd Arfon. Gasglwyd y swm o £81.

OEDFA Mai 20. Gan na allai'r cennad a fwriadwyd i wasanaethu fod yn bresennol, cynhaliwyd oedfa dan arweiniad y blaenoriaid. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan Mr Richard Wyn Evans. Yn dilyn cafwyd argraffiadau gan Lowri Roberts Williams o Ysgol Undydd Cymdeithas Emynu Cymru a gynhaliwyd yn Aberystwyth y dydd blaenorol. Thema'r diwrnod oedd 'Caneuonj

Ffydd' a chafwyd crynodeb o gyfraniad Mr Brinley F. Roberts, Aberystwyth - Golygydd y gyfrol, y cerddor Mr Robert Nicholls a'r Parch Ronald Williams, Caernarfon. Cyfranwyd rhai sylwadau gan aelodau o'r gynulleidfa a diweddwyd y cyfarfod gan Mrs Jennie A. Roberts.

TREFN OEDFAON MEHEFIN.

3 Sul y Pentecost:

Mr Gwilym Charles Williams, Bae Penrhyn;

10 Y Parch Trefor Jones, Caernarfon - Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd;

17 Y Parch James Clarke, Llanwnda.

Cynhelir y tair oedfa am 5.30.

SUL CYMDEITHAS Y BEIBLAU

Mehefin 24. Cynhelir y cyfarfodydd yn Eglwys y Santes Helen, Penisarwaun. Bydd cyfarfod y prynhawn am 2 o'r gloch dan lywyddiaeth Mrs Bronwen Jones, Penisarwaun. Cymerir rhan gan blant Ysgolion Sul Deiniolen a'r Cylch. Bydd y Gymanfa Ganu yn yr hwyr am 6 o'r gloch dan lywyddiaeth Mr Derek Jones, Llanberis. Yr Arweinydd Gwadd fydd Mr Gareth Glyn a rhoddir eitemau gan Lleisiau'r Frogwy

Peidiwch gori ar stori. Anfonwch hi i'r ECO

DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: (01286) 871259

CYNGERDD MAWREDDOG YSGOL FEITHRIN. Ail-drefnwyd Cyngerdd yr Ysgol Feithrin a ohiriwyd o Fawrth 2 o achos y Clwy Traed a'r Genau a bydd yn awr yn cael ei gynnal ar ddydd Gwener, 13 Gorffennaf am 7 o'r gloch yng Nghapel Ebeneser, Deiniolen.

DIOLCH. Hoffai Geraint a Bethan, Maes yr Ehedydd ddiolch o waelod calon am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniaasant ar enedigaeu eu mab, Cynan Morus Parri, ar 24 Ebrill, 2001.

CYFEILLION EGLWYS CRIST.

Nos Fercher, Mai 9 cynhaliwyd cyfarfod gyda'r Parchedig Tegid Roberts yn llywyddu yn absenoldeb y Parchedig Gareth Parry. Y gŵr gwadd oedd Mr Arthur Jones o Fethesda, saer coed wrth ei alwedigaeth. Difyr iawn oedd gwrandio arno'n sgwrsio a thrafod amrywiaeth o goed gyda llawer o samplau. I ddiweddu'r noson cafwyd arddangosfa o'i waith crefftus a chyfle i brynu. Diolchwyd i Arthur gan y llywydd. Nos Lun, Mehefin 4 am 7 o'r gloch cynhelir y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol.

Y Sgwâr Llanrug

Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol Cerrig o bob math ar gael -

Ffôn: (01286) 672898 (dydd) 676285 (nos)

DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson)
CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- Pob math o ddodrefn tŷ
- Cegin, 'stafell fyw, llofft
- Prisiau cystadleuol
- Danfon am ddim i holl ardal Bro'r Eco



J.M.
JONES
A'I FEIBION
GWAITH
CERRIG
BEDDAU

Prynhawn yn Antur Waunfawr

Ble 'roeddech chi ar Fai y seithfed eleni? Ie, diwrnod y gweithwyr. Wel yng Ngŵyl Fai Antur Waunfawr yr oeddwn i.

Ychydig wythnosau'n ôl gofynnwyd imi 'Be wyt ti eisiau'i wneud i gynorthwyo ar y dydd?' 'Rhywbeth,' meddwn i, ac ar y diwrnod y fi oedd yn gofalu fod pawb yn gwybod beth oedd yn digwydd rhwng dau o'r gloch y prynhawn tan bump o'r gloch.

Roedd yr Antur fel lladd nadroedd cyn amser cychwyn. Michael Jones a Kevin gyda Roy (Rheolwr yr Antur ers y cychwyn cyntaf yn 1984,) a Joe, un o'r gwirfoddolwyr yn gofalu am y parcio. Popti newydd bwyty 'Blas y Waun' yn gweithio gor-amser dan gyfarwyddyd medrus Carole a'i thim, yn coginio popeth cartref a'r ciw ar adegau yn awgrymu fod pawb am brofi ei chynnyrch. Dewi, un arall o Reolwyr yr Antur, sydd yn brysur yn darparu lliw i erddi pawb yn y fro. Un arall o'r Reolwyr ydi Wyn, hogyn o Ben Llŷn, rhyw gadw llygad hamddenol ar bopeth yr oedd o heddiw.

Gan fod y safle Ailgylchu Dodrefn yn Cibern, Caernarfon rhaid oedd pacio'r lori las a dod a'r celfi i safle'r Antur i ddangos arbenigedd coed y criw sy'n gweithio yno yn adnewyddu'r hen greiriau. Sôn am hen bethau, y Tŷ Capel a'r Amgueddfa yn olrhain hanes yr ardal a'r cyntedd gyda llun pawb o'r gweithwyr yn ddiwahan yn eich croesawu'n gynnes.

Allan yn yr ardd a'r haul yn tywynnu a'r awel yn chwythu'n ysgafn roedd 'Cwmni Cortyn' gyda sioe bypedau yn diddanu'r plant ac, am ychydig, cefais deimlad fod cerflun John Evans yn sbecian a mwynhau wrth weld cenhedlaeth newydd yn profi rhyfeddodau y cortyn.

Draw ar y lawnt, rhieni brwdfrydig yr Ysgol Feithrin yn paentio wynebau amryliw lliwgar y plant ac yn temtio'r

rhai hŷn i brynu raffl. Esiaml arall o'r Antur yn cyd-weithio yn y gymuned ac ychydig lathenni i ffwrdd cafwyd gwaith cywrair plethu helyg gan Adrian Farey a Mandy Coates.

Aelod Seneddol Ewrop dros Ogledd Cymru, Eurig Wyn, a Huw Davies, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Antur oedd yn didgon dewr (neu wirion) i gael eu pledu hefo spwng dŵ r. Pwy sydd am wirfoddoli y flwyddyn nesaf?

Yn y gornel, Seindorf Arian Llanrug yn diddori dan arweiniad Paul Hughes. Braf oedd gweld rhai ifanc yn y band gyda'r aelodau hŷn yn rhannu o'u profiad i'w cynorthwyo.

Ar y ffordd i Siop Bryn Pistyll, dan ofal Gill, yr uwch reolwr, rhaid oedd mynd heibio'r adar ysglyfaethus. Yn y parc, Guides a Brownies Waunfawr oedd yn cynorthwyo hefo'r gwaith maes. Am bedwar o'r gloch cael eu tywys am orig o gyfeiriannu o gwmpas y Parc yng nghwmni Hefin Jones, dyna brofiad i'r plant. Dwi'n siŵr fod carnau Branwen y gaseg wedi blino gan fod pawb eisiau mynd am reid yn y drol dan arweiniad Alwyn ac Elyllt.

Prynhawn o ddigwyddiadau diddorol ac amrywiol gyda tua phump cant yn bresennol, rhai wynebau amlwg yn eu plith fel Aelod y Cynulliad a San Steffan, Dafydd Wigley, ffrind i'r Antur. Braf hefyd oedd croesawu Hywel Williams a Martin Eaglestone, y ddau yn ddarpar ymgeiswyr i'w plaid yn yr etholiad yn Arfon; Bryn Jones o'r *Daily Post*; Arwyn Roberts o'r *Caernarfon & Denbigh Herald* sy'n galw'n gyson; Berwyn Owen sydd a'i lais ar y radio erbyn hyn yn 'Berwyn a'i Bils'; Arwel Jones, Hogia'r Wyddfa; Meg a Dai, rhieni Iolo Williams sydd ar y teledu gyda'i raglenni natur; Mari Evans, merch yr enwog siop Leeds House yng Nghaernarfon beth amser yn ôl; Iwcs yr actor a'r canwr sydd wedi cartrefu yn y pentref erbyn

hyn, Maldwyn Thomas a'i deulu o Fangor, darlithydd a llais arall ar y radio o dro i dro.

Ar ôl prynhawn mor ardderchog yn yr Antur os na gawsoch gyfle i brofi popeth beth am ddod yn ôl, bydd Gwyn, Menna a'r holl griw yn

sicr o'ch croesawu.

O.N. Diolch i Meirwen a phawb o'r Antur fu'n cynorthwyo i wneud yr Wyl mor llwyddiannus. Diolch yn arbenig i pawb fu draw yn blasu'r gweithgareddau.

Mis Mehefin yn yr Ardd

Gelwir Gorffennaf yn Orffen Haf pan mai Canol Haf ddylai mis Mehefin fod. Dyma'r mis y gellir eistedd yn ôl ac edrych ar ffrwyth gwaith y gwanwyn.

Mis Mehefin a ystyrir yn fis y rhosynau. Dyma'r adeg y maent ar eu gorau ond geilw'r garddwyr proffesiynol y gerddi bach o flaen y tai yn llawn o ddim ond coed rhosod yn erddi garddwyr diog. Mae hynny'n wir i raddau, ond i gael blodau da mae'n rhaid rhoi gwrtaith iddynt. All blodau, mwy na phobl, fyw na ffynnu heb fwyd. Rhaid hefyd torri y mân frigau

sy'n tyfu o'r gwraidd neu fe â'r coed fel rhosod gwyllt.

Y peth bendithiol i mi ydyw'r potiau o rosod bach. Gellir plannu rheiny yn yr ardd hefyd. Cefais anrheg o goeden rosod sy'n edrych fel rhosyn gwyllt ond nid dyna ydynt. Mae eu harogl pan agorir y ffenest yn llenwi'r ystafell fyw.

Braf ydi cael dweud fel Williams Pantycelyn

Mi bellach goda' i mäs,
Ar fore glas y wawr,
I weld y blodau hardd...

Hwyl ar dyfu'r rhosod.

Mwy o luniau o daith Ysgol Brynrefail i Ffrainc



Royal Victoria Hotel

LLANBERIS

Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer
PRIODASAU • PARTÏON • DATHLIADAU ac
ACHLYSURON ARBENNIG

CYFLEUSTERAU CYNHADLEDDAU a
PHWYLLGORAU

BWYDLEN BAR a CHINIO DYDD SUL

Ffôn: (01286) 870253

EMYR JONES

PLYMAR A
PHEIRIANNYDD
GWRESOGI



Cynnal boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau

44 Glanffynnon, Llanrug
CAERNARFON 673513
Ffôn Symudol: 07774 496616

Cyngor Cymuned Llanberis

Mae'r Cyngor angen


GWEITHIWR
ACHLYSUROL

i wneud gwaith cynnal
a chadw a gwaith tacluso
o fewn y gymuned

Am fwy o wybodaeth
cysyllter â'r Clerc:

Dafydd Whiteside Thomas,
Bron y Nant, Llanrug
Ffôn: (01286) 673515

CROESAIR MEHEFIN



Fe gân 1 a 3 ar draws (1,3,7) yn 32 i lawr a 24 ar draws a 30 a 42 ar draws.

Ar Draws:

- 7 Gŵn isaf o Pisa? (4)
- 12 Llyfr cofnodion Aelod Seneddol Ogwen Isaf (3)
- 13 Does dim ond rhywbeth ffaidd i'w ddisgwyl gan 'lafna meddw' (5)
- 14 Rhai sy'n gyrru o arfau (7)
- 15 Gadael yn ddiymgeledd (7)
- 16 Gael codiad yn y gwaith (9)
- 17 Pastwm Iago yn dychwelyd mewn cant a hanner (6)
- 18 Y gofid o golli rhywun (5)
- 20 Gwisg gyfan 43 ar draws rhyfedd (4)
- 26 Gwasanaeth a gynhelir gan y llywodraeth i weithredu dros eraill (9)
- 27 Bachgen yn ei faint (3)
- 28 Hen wneud yn well (4)
- 29 Pobl dda, fel Padrig a Dewi (5)
- 34 Bwyd nosau meddw i rai annysgedig (9)
- 36 Cartref côr meibion enwog yn y dre (7)
- 38 Cic lawn am glochdar (7)
- 39 Ann a Meleri yn dechrau creu merch arall (5)
- 40 Mur yn y gogledd (3)
- 41 Cryfder (4)
- 43 Bwyd wedi ei ferwi'n araf (4)

I Lawr

- 1 Hela (5)
- 2 Bwyd, er enghraifft, wedi ei dyfu heb gymorth cemegau (7)
- 4 Y bardd, o gwmpas dechrau Ionawr, yn curo (6)
- 5 Anenwog (2-3)
- 6 Curiadau mewn cerddoriaeth (10)
- 8 Ymateb y defnyddiwr cyffuriau a thaid Dewi yn wahannol (9)
- 9 Sodro yn wael, y gwehilion!! (5)

- 10 Yr un mwyaf ffeind (9)
- 11 Pruddglwyf Malen wael (5)
- 17 Casgliad o bobl mewn busnes (5)
- 19 Uffern - y byd o dan y ddaear (5)
- 21 Y llais ucha'n y côr (5)
- 22 Glan y môr Lleu Llaw Gyffes (5,5)
- 23 Dwy ysgolfeistres, neu neu efallai mwy (9)
- 25 Achubwyr neu waredwyr (9)
- 31 Rhywbeth yn debyg i sŵn tref yn achosi 'nervous breakdown' (7)
- 33 Cnoi cil (6)
- 34 Pwrpas neu nod cael yr arian cyntaf o Ewrop? (5)
- 35 Corn mwg Sion Corn? (5)
- 37 O dan cymysgedd o 40 a hanner 20 ar draws (5)

Derbyniais atebion i Groesair Mai gan Ceridwen Williams, Chris Roberts, Llanrug; Nansi Davies, Rhuthun; Eluned Jones, Trefor; H. O. Hughes, Pwllheli; Margaret W. Roberts, Mair Evans, Caernarfon; Mabel Parry, Porthmadog; Ellen Pritchard, Garndolbenmaen; Rosemary Williams, Tregarth; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; M. P. Jones, Jennie Williams, Clynog; Catherine A. Jones, Jean Hughes-Jones, Rhiw; Nan Owen, Moreen Lennon ac Olwen Owen, Llanberis.

Mae'n bur debyg fod rhai eraill heb gyrraedd mewn pryd oherwydd streic y postmyn - mae'r rhestr yn brin o enwau nifer o'r ffyddloniaid - ond mae'n rhaid i minnau gydymffurfio â 'deadline' y wasg.

Gan mai 'anifeiliaid ifanc' oedd eu hangen fel ateb i 19 ar draws, nid yw MOCH, sef yr ateb a gefais gan nifer ohonoch yn ddilys. Am LLOI yr oeddwn

CALENDER MIS MEHEFIN

1. Gwe **WAUNFAWR**. Sefydliad y Merched. Pwyllgor yn Fferm Bodhyfryd.
3. Sul **DINORWIG**. Cyfarfod Pregethu Sardis am 2 a 5.30.
4. Llun **DEINIOLEN**. Cyfarfod cyffredinol blyneddol Cymdeithas Cyfeillion Eglwys Crist.
8. Gwe **RHIWLAS**. Noson Gelf a Chrefft Merched y Wawr.
9. Sad Trip yr Eglwys i Ganolfan Siopa Trafford.
10. Sul **Y FELINHELI**. Gŵyl Gorawl Eryri yn Eglwys St. Mair am 2 a 6 o'r gloch.
13. Mer **BETHEL**. Merched y Wawr. Taith ddirgel.
14. Iau **BRYNREFAIL**. Y Gymdeithas, gyda Mr Bobby Haines.
15. Gwe **CAERNARFON**. Bore Coffi Merched y Wawr er budd yr Anabl.
18. Llun **DEINIOLEN**. Cyfarfod blyneddol Merched y Wawr.
24. Sul **PENISARWAUN**. Cymdeithas y Beiblau yn Eglwys y Santes Helen am 2 a Chymanfa am 6.
28. Iau **BETHEL**. Plygu Eco'r Wyddfa yn y Neuadd.
30. Sad **WAUNFAWR**. Diwrnod arbennig yng ngerddi'r Antur o dan nawdd y Cynllun Gerddi Cenedlaethol.

RHAG-HYSBYSIAD GORFFENNAF

- 13: Gwe **DEINIOLEN**. Cyngerdd yr Ysgol Feithrin a ohiriwyd o fis Mawrth.

RHODDION

£15: Mr a Mrs Gwilym Searrell Jones, Gwynant, Nant Ffynnon, Nant Peris.
 £10: Mr a Mrs Derek Williams, Bron Eilian, Dinorwig; Mrs Annie Jones, Eilionwy, Llanrug; Dr. R. Fraser Williams, Sale.
 £6: Mrs A. Sidebotham, Stockport; Mr Gwilym Ellis, Llandrindod.
 £5: Selyf Hughes, Tan Dderwen, Llanberis; Tecwyn Roberts, 12 Castle View, Llanberis; Nia Wyn Roberts, Ty'n Llwyn, 22 Stryd Goodman, Llanberis; Mrs Marian Williams, 18 Stad Tŷ Hen, Waunfawr; Mr Gwilym

Hughes, Bryn Peris, Waunfawr; Mrs Iris Owen, 5 Tŷ Hen, Waunfawr (Er Cof am John).
 £2: Mrs Sarah Thomas, 4 Tref Eilian, Waunfawr.
 £1: Mrs Ellen Wright, Tregarth; Mrs Enid Jones, Talysarn.

Y GYMDEITHAS FEIBLAIDD

yn Eglwys Santes Helen
 Penisarwaun
 Mehefin 24
 2 a 6 o'r gloch

Ceir eitemau yn yr hwyr
 gan

Lleisiau'r Frogwy
 dan arweiniad
 Gareth Glyn


Casgliad at y Gymdeithas



yn chwilio - fel arall roedd atebion pawb yn gywir gan fod MYN neu WYN yn ymateb i 17 ar draws.

Enillydd y mis ydi Dilys A. Pritchard-Jones, Ynys, Abererch. Mae'n bryd i'w henw ddod allan o'r het, gan mai ei hymdrechion hi, sy'n wastad yn gywir, yw'r rhai a welwch yn fisol fel atebion y mis diwethaf yn yr Eco. Diolch Dilys, a £5 i chi.

Ar ôl cwblhau croesair Mehefin, gyrrwch eich atebion i Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun, Gwynedd LL55 3HE erbyn Mehefin 19.



**GWYNANT
 PIERCE**

Cynrychion Coed:
 Gatiau, Ffensus ac ati
 am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG

Ffôn: (01286) 650349
 (0589) 899901

CHWARAEON



Mor Agos, Ond...

Yn rownd go-gyn-derfynol Cwpan -16 Cymru roedd y gêm bêl-droed rhwng Brynrefail ac Ysgol Syr Thomas Picton, Hwlfordd yn un gyffrous dros ben a'r bêl ym meddiant Brynrefail am y rhan helaethaf o'r gêm, ond, am ryw reswm, gwrthodai'r bêl groesi'r llinell, a nifer o gyfleon yn cael eu colli. Roedd Jonathan Gordon yn anlwcus iawn i beidio â sgorio pan heriodd y gôl-geidwad yn ddewr.

O gic gornel sgoriodd Tomos Picton i fynd ar y blaen, canlyniad amddiffyn blêr a arweiniodd at ddathlu go ryfedd o amgylch y lliman cornel.

Cychwynodd yr ail hanner â thon ar ôl ton o ymosod gan Brynrefail ond roedd y gôl yn parhau i fod allan o'u cyrraedd. Cafwyd un cynnig agos yn taro'r postyn ond yn anffodus nid cefn y rhwyd.

Yna taclodd David Jones amddiffynwr ar yr asgell gan

ddwyn y bêl, osgoi un arall a phasio cic berffaith i Marcus Orlick - roedd y sgôr yn gyfartal.

Dim ond un tîm allai fod yn fuddugoliaethus rwan.

O gic gornel neidiodd Owain Morris fel eog wrth y postyn agosaf a thanio'r bêl fel bwled o'i ben i gornel y rhwyd.

Llwyddodd Keith Williams i godi'r sgôr yn 3-1 gyda gôl wych.

Brynrefail yn ennill yn gyfforddus yn y pen draw ond am gyfnod hir bu'r bêl yn styfnig a'r gôl yn bell.

Llongyfarchiadau i'r tîm cyfan. Yn anffodus ni fydd y cwpan yn dod i Brynrefail gan iddynt gollu gêm hynod o gyffrous yn y rownd gyn-derfynol. Eu gwrthwynebwyd ym Mae Colwyn oedd Ysgol Uwchradd Penarlâg - cyn ysgol Meical Owen. 1-1 oedd y sgôr wedi 90 munud ond, yn yr amser ychwanegol, roedd bechgyn Clwyd yn rhy gryf a hwy a enillodd o 3-1.



Dringo'r Ysgol

'Yn sicr, dyma un am y dyfodol,' oedd geiriau Andy Flower, capten tîm criced Zimbabwe wrth drafod Tom Evison o Gaeathro.

Cafodd Tom gryn sylw yn y golofn yma dros y tymhorau, fel y dringodd yr ysgol o dimau clwb, sir a chenedlaethol ar wahanol oedrannau. Erbyn hyn mae'n aelod o garfan -17 Lloegr, ond hefyd mae wedi cymryd y cam cyntaf yn y gêm broffesiynol. Wythnos yn ôl cafodd wahoddiad i chwarae i ail dîm Morgannwg yn eu gêm dri diwrnod yn erbyn Sir Gaerhirfryn yn Lerpwl. Yn anffodus, oherwydd y glaw, ni ellid chwarae am y ddau ddiwrnod cyntaf ac felly cytunwyd i chwarae

gêm 'undydd' ar y trydydd dydd. Gwaneth Tom gyfraniad derbyniol i fuddugoliaeth Morgannwg gan sgorio 27h.f.a. gyda'r bat, a chipio un wiced tra'n bowllo deg pelawd.

Yn amlwg roedd wedi creu argraff gan fod John Derrick, hyfforddwr y tîm wedi ei wahodd i lawer i'r de am fwy o gemau, gyda'r bwriad gobeithio o gynnig cytundeb iddo.

Y mae'r tywydd braf diweddar wedi bod wrth fodd Tom, ac eisoes mae wedi cipio 10 wiced a sgorio 240 o rediadau yn nechrau di-guro i'r tymor i glwb dinas Bangor. Dymunwn yn dda i Tom a gobeithio y bydd yn symbyliad i'r llu o gricedwyr ifanc yn y fro, fel y bu Mathew Maynard i lu o'i gyfoedion yn y blynyddoedd cynt.



Hwyllo!

Dyma un maes sy'n ddieithr iawn i'r golofn hon, ond eto, gyda dylanwad un clwb lleol a chanolfan wych Plas Menai mae yn denu nifer o ieuenctid lleol i'r gamp. Y clwb dan sylw yw Clwb Hwyllo y Felinheli sydd a record anhygoel o droi allan hwylwyr ieuanc o safon rhyngwladol.

Mae dwy ferch o Fethel yn profi cryn lwyddiant ar hyn o bryd. Disgyblion yn Ysgol Brynrefail yw Lisa Williams (14 oed) a Ffion Haf Jones (12 oed).

Yng ngharfan y Topper mae Lisa yn hwyllo a Ffion yn nosbarth yr Optimist. Mae Lisa wedi bod yn aelod o'r clwb ers tair blynedd, ac mae'n ymarfer ar y Fenai dair gwaith yr wythnos. Cafodd regatta lwyddiannus iawn ym Mhwlheli yn ddiweddar pan gynhaliwyd Pencampwriaeth Ieuenctid Cymru. Yn nosbarth y Topper hi oedd y ferch fwyaf llwyddiannus ac yn y gystadleuaeth agored, cipiodd yr ail safle. Yr oedd y perfformiadau yma yn ddigon i

ennill lle iddi yng Ngharfan Hwyllo Cymru. Yn ddiweddar hwyliodd mewn cystadleuaeth Brydeinig ar lynoedd Grantham ger Peterborough a gorffennodd yn y canfed safle allan o 194 o gychod. Y mae wrthi yn ymarfer yn galed ar hyn o bryd gan fod Pencampwriaeth Prydain yn cael ei gynnal ym Mhwlheli ym mis Awst. Gobeithio y bydd 'gwybodaeth leol' o fantais iddi bryd hynny.

Mae Ffion wedi bod yn aelod o'r clwb ers chwe blynedd. Mae hwyllo yng ngwaed Ffion gan fod ei thad, John, nid yn unig yn hwyllo ond hefyd yn cynllunio cychod. Mae Ffion hefyd yn aelod o Garfan Cymru yn nosbarth yr Optimist. Hi yw pencampwraig Cymru i rai dan 13 oed ac mae'n edrych ymlaen i deithio i'r Alban ar gyfer Pencampwriaeth Prydain.

Nod y ddwy fydd rhywddro ennill lle yn nhîm hwyllo Cymru ar gyfer Gemau'r Gymanwlad.

Gobeithio y cânt wynt teg i'w gyrru ymlaen.

Tlws yr Eco (Cynradd) 2001

Do, fe ddaeth yn amser noson y flwyddyn unwaith eto. Mae'r ffôn wedi bod yn canu, gyda llawer o holi a yw'r gystadleuaeth ymlaen. Ydy, a'r noson bwysig yw nos Iau, Mehefin 21 ar faes Ysgol Gynradd Llanrug.

Gan fod y noson mor boblogaidd ac yn denu cryn dorf, buaswn yn falch os buasai'r rheolwyr yn dychwelyd y ffurflenni i mi yn brydlon erbyn **NOS FAWRTH, MEHEFIN 12**, gyda'r **ARIAN**

hefyd os gwelwch yn dda. Mae hyn yn fy ngalluogi i archebu'r tlysau - sydd mor bwysig i'r plant ar y noson.

Dim ond ar y ffurflen swyddogol y gellir derbyn enwau'r timau a bydd rhaid cau y rhestr ar y noson benodol. Unwaith eto, mae'r pris yn rhesymol - £10 y tîm neu £1 yr aelod!

A gaf i ddiolch ymlaen llaw i'r llu sy'n cyfrannu mewn sawl ffordd i lwyddiant y noson. Gobeithio am noson braf, flinedig ond hynod bleserus. Wela' i chi yno!

TLWS ECO'R WYDDFA (CYNRADD) NOS IAU, 21 MEHEFIN, 2000 YSGOL GYNRADD LLANRUG

Y chwarae i ddechrau'n brydlon am 5.30 p.m.

TLWS YR ECO — PÊL-DROED

ENW'R TÎM _____

PERSON Â GOFAL _____

OEDRAN: Bl. 3/4 _____ Bl. 5/6 _____ (Ticiwch y man priodol)

ARIAN GYDA'R FFURFLEN: OES/AGOES Swm £ _____

TLWS YR ECO — PÊL-RWYD

ENW'R TÎM _____

PERSON Â GOFAL _____

OEDRAN: Bl. 3/4 _____ Bl. 5/6 _____ (Ticiwch y man priodol)

ARIAN GYDA'R FFURFLEN: OES/AGOES Swm £ _____

* Y ffurflen i'w dychwelyd i **RICHARD LLOYD JONES**,
5 Y DDÔL, BETHEL dim hwyrach na **NOS FAWRTH, 12 MEHEFIN**
YNGHYD Â'R TÂL PERTHNASOL